



# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

2011 mccc 4

Nodiadau Esboniadol

# Local Government (Wales) Measure 2011

2011 nawm 4

Explanatory Notes

£10.75

# MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011

---

## NODIADAU ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 fel y'i pasiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 15 Mawrth 2011 ac y'i cymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 10 Mai 2011.
2. Maent wedi eu llunio gan Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Mesur arfaethedig a helpu i lywio dadl arno. Nid ydynt yn ffurfio rhan o'r Mesur drafft nac wedi eu hategu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Mesur arfaethedig. Nid ydynt, ac ni fwriedir iddynt fod, yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Mesur. Felly, os nad yw'n ymddangos bod angen unrhyw esboniad neu sylw ar adran neu ran o adran, nis rhoddir.
4. Mae 10 rhan i'r nodiadau esboniadol:
  - Rhannau 1-2 – Cryfhau democratiaeth leol; Absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau awdurdodau lleol;
  - Rhannau 3-5 – Trefniadau llywodraethu, newidiadau i drefniadau gweithrediaeth a'r broses o gyflawni swyddogaethau gan bwyllgorau a chynghorwyr;
  - Rhan 6 – Trosolwg a Chraffu;
  - Rhan 7 – Cymunedau a chynghorau cymuned;
  - Rhan 8 – Aelodau: Taliadau a Phensiynau;
  - Rhan 9 – Cydlafurio a Chyfuno;
  - Rhan 10 – Cyffredinol.
5. Mae'r pwerau i wneud Mesur o'r fath wedi eu cynnwys ym Materion 12.1 a 12.5 i 12.17 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol Cymru 2006.
6. Defnyddir y termau a ganlyn yn y Nodiadau hyn:
  - Comisiwn Cymru – Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
  - Cyngor cymuned - i gyfeirio at gyngor cymuned neu gyngor tref yng Nghymru
  - Deddf 1972 – Deddf Llywodraeth Leol 1972
  - Deddf 2000 – Deddf Llywodraeth Leol 2000
  - Mesur 2009 – Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009
  - Prif gyngor - i gyfeirio at gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru

# LOCAL GOVERNMENT (WALES) MEASURE 2011

---

## EXPLANATORY NOTES

### INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes relate to the Local Government (Wales) Measure 2011 as passed by the National Assembly for Wales on 15 March 2011 and approved by Her Majesty in Council on 10 May 2011.
2. They have been prepared by the Welsh Assembly Government's Department for Social Justice and Local Government in order to assist the reader of the proposed Measure and to help inform debate on it. They do not form part of the draft Measure and have not been endorsed by the National Assembly for Wales.
3. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the proposed Measure. They are not, and are not meant to be, a comprehensive description of the Measure. So where a section or part of a section does not seem to require any explanation or comment, none is given.
4. There are 10 parts to the Explanatory Notes:
  - Parts 1-2 – Strengthening local democracy; Family absence for members of local authorities;
  - Parts 3-5 – Governance arrangements, changes to executive arrangements and discharge of functions by committees and councillors;
  - Part 6 – Overview and Scrutiny;
  - Part 7 – Communities and community councils;
  - Part 8 – Members: Payment and Pensions;
  - Part 9 – Collaboration and Amalgamation;
  - Part 10 – General.
5. The powers to make such a Measure are contained in Matters 12.1 and 12.5 to 12.17 of Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006.
6. The following terms are used in these Notes:
  - Principal council – to refer to a county or county borough council in Wales;
  - Community council – to refer to a community or town council in Wales;
  - The 1972 Act – The Local Government Act 1972;
  - The 2000 Act – The Local Government Act 2000;
  - The 2009 Measure – The Local Government (Wales) Measure 2009;
  - The Welsh Commission – the Local Government Boundary Commission for Wales.

## **ESBONIAD AR ADRANNAU**

### **Rhan 1 - Cryfhau democratiaeth leol**

#### **Adran 1 - Dyletswydd i gynnal arolwg**

7. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob prif gyngor yng Nghymru gynnal arolwg o ymgeiswyr na fu iddynt lwyddo i gael eu hethol yn gynghorwyr mewn etholiadau cyffredin ar gyfer prif gynghorau a chynghorau cymuned yng Nghymru (a gynhelir fel rheol ar yr un pryd bob pedair blynedd), a hefyd o'r personau hynny y llwyddwyd i'w hethol yn gynghorwyr yn yr etholiadau hynny.
8. Mae'r arolwg wedi ei fwriadu i gwmpasu amryw o faterion ac i helpu i roi gwybod i wneuthurwyr polisi am lwyddiant neu fethiant mentrau i hyrwyddo ystod ehangach o bersonau i ymgeisio mewn etholiadau ar gyfer cynghorau. Rhagnodir cwestiynau'r arolwg, ffurflen yr arolwg a modd crynhoi'r wybodaeth mewn rheoliadau sydd i'w gwneud gan Weinidogion Cymru.
9. Rhaid i'r awdurdod lleol sy'n ymgymryd â'r arolwg sicrhau bod cynghorwyr ac ymgeiswyr yn gallu darparu'r wybodaeth yn ddiennw; nid yw cynghorwyr ac ymgeiswyr o dan unrhyw orfodaeth i ymateb i'r arolwg.

#### **Adran 2 - Cwblhau arolwg a chyhoeddi gwybodaeth**

10. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gwblhau'r arolwg a darparu'r wybodaeth sydd wedi ei chrynhai ganddynt i Weinidogion Cymru cyn pen chwe mis ar ôl dyddiad yr etholiadau y mae'r arolwg yn ymwneud â hwy. Caiff yr awdurdodau lleol gyhoeddi'r wybodaeth y maent wedi ei chrynhai.
11. Rhaid i Weinidogion Cymru grynhoi'r wybodaeth a geir a'i chyhoeddi cyn pen deuddeg mis ar ôl dyddiad yr etholiadau y mae'r arolwg yn ymwneud â hwy. Caiff Gweinidogion Cymru rannu'r wybodaeth fel y'i ceir oddi wrth yr awdurdodau lleol (h.y. cyn unrhyw grynhoi pellach gan Weinidogion Cymru) ag unrhyw gorff sy'n cynrychioli llywodraeth leol yng Nghymru.
12. Wrth gyhoeddi neu rannu unrhyw wybodaeth o'r arolwg, rhaid i Weinidogion Cymru ac awdurdod lleol sicrhau na chaiff unrhyw un a gyfrannodd at yr arolwg ei enwi a sicrhau na fyddai modd ei adnabod mewn unrhyw ffordd.

#### **Adran 3 - Canllawiau ynghylch arolygon**

13. Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau am arolygon ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau hynny.

#### **Adran 4 - Mynychu cyfarfodydd o bell**

14. Effaith yr adran hon yw ehangu cyfeiriad mewn unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys cyfeiriad sydd wedi ei gynnwys yn y Mesur ac mewn is-ddeddfwriaeth) at gyfarfod o awdurdod lleol i gynnwys aelodau o awdurdod lleol sy'n ei fynychu o bell cyhyd ag y caiff pob un o'r amodau, a nodir yn is-adran (3), ei fodloni.
15. Rhaid i reolau sefydlog awdurdod lleol sicrhau, i bob pwrpas, fod nifer yr aelodau sy'n mynychu'r cyfarfod mewn gwirionedd (h.y. sy'n mynychu'r cyfarfod yn y man lle y mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal) yn fwy na nifer y rhai sy'n ei fynychu o bell. Yn ychwanegol, caiff yr awdurdod lleol wneud rheolau sefydlog eraill ynghylch mynychu o bell.

## **COMMENTARY ON SECTIONS**

### **Part 1 – Strengthening local democracy**

#### **Section 1 - Duty to conduct a survey**

7. Requires each principal council in Wales to conduct a survey of unsuccessful candidates who have stood for election as councillors at ordinary elections to principal and community councils in Wales (normally held concurrently every four years), and also of those persons who have been successfully elected as councillors at these elections.
8. The survey is intended to cover various issues and help inform policy makers about the success or otherwise of initiatives to encourage a wider range of persons to stand for election to councils. The survey questions, the survey form and the manner of collating the information will be prescribed in regulations to be made by the Welsh Ministers.
9. The local authority undertaking the survey must ensure that councillors and candidates are able to provide the information anonymously; councillors and candidates are under no obligation to respond to the survey.

#### **Section 2 – Completion of a survey and publication of information**

10. Requires local authorities to complete the survey and to have provided the collated information to the Welsh Ministers within six months of the date of the elections to which the survey relates. The local authorities may publish the information they have collated.
11. The Welsh Ministers must collate the information received and publish it within twelve months of the date of the elections to which the survey relates. The Welsh Ministers may share the information as received from the local authorities (i.e. before any further collation by the Welsh Ministers) with any representative body of local government in Wales.
12. In publishing or sharing any survey information, the Welsh Ministers and a local authority must ensure that no survey contributors are named or could be identified in any way.

#### **Section 3 – Guidance about surveys**

13. Empowers the Welsh Ministers to issue guidance about surveys and requires local authorities to have regard to that guidance.

#### **Section 4 – Remote attendance at meetings**

14. Has the effect of expanding a reference in any enactment (including contained in the Measure and in subordinate legislation) to a meeting of a local authority to include members of a local authority who are in remote attendance providing all the conditions, which are set out in subsection (3) are met.
15. The standing orders of a local authority must ensure that, in effect, the number of members in actual attendance (i.e. who is attending the meeting at the place where the meeting is held) are greater in number than those in remote attendance. In addition, the local authority may make other standing orders about remote attendance.

16. Diben y newid yw cyflwyno mwy o hyblygrwydd ar gyfer trefniadau cyfarfodydd er mwyn darparu ar gyfer anghenion cynghorwyr o gefndiroedd mwy amrywiol.
17. Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i ganllawiau y caiff Gweinidogion Cymru eu dyroddi ynglŷn â mynychu o bell.

#### **Adran 5 – Adroddiadau blynyddol gan aelodau o awdurdod lleol**

18. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol wneud trefniadau i gyhoeddi adroddiadau blynyddol gan ei aelodau a chan aelodau o'i weithrediaeth ar eu gweithgareddau yn unol â'r naill rôl neu'r llall neu'r ddwy yn y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.
19. Caiff y trefniadau a wneir gan yr awdurdod gynnwys amodau ynghylch cynnwys adroddiad y mae'n rhaid eu bodloni gan y person sy'n ei lunio a rhaid i'r awdurdod roi cyhoeddusrwydd i'r trefniadau hynny. Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i ganllawiau y caiff Gweinidogion eu dyroddi am adroddiadau blynyddol.

#### **Adran 6 – Amseru cyfarfodydd cyngor**

20. Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ynghylch amseru cyfarfodydd awdurdod lleol (gan gynnwys cyfarfodydd unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor) gyda golwg ar gyflwyno trefniadau mwy hyblyg i ddarparu ar gyfer cynghorwyr o gefndiroedd mwy amrywiol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau hynny.

#### **Adran 7 – Hyfforddi a datblygu aelodau o awdurdod lleol**

21. Mae'n rhoi dyletswydd ar brif gynghorau i sicrhau y darperir cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol i'w haelodau. Rhaid i bob prif gyngor roi ar gael i'w aelodau adolygiad blynyddol o'u hanghenion hyfforddi a datblygu, gan gynnwys cyfle am gyfweliad gyda pherson y bernir ei fod yn briodol gymwys i gynghori ar y mater hwnnw. Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i ganllawiau y caiff Gweinidogion Cymru eu dyroddi ar y materion hyn.

#### **Adran 8 – Pennaeth gwasanaethau democrataidd**

22. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd pob prif gyngor ddynodi un o swyddogion yr awdurdod i fod yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd ("PGD"), ond ni chaniateir i bennaeth ei wasanaeth cyflogedig, ei swyddog monitro na'i brif swyddog cyllid gael ei ddynodi yn y cyswllt hwn.
23. Caiff y PGD drefnu i'r swyddogaethau gwasanaethau democrataidd gael eu cyflawni gan staff a rhaid darparu i'r PGD y staff, y llety a'r adnoddau eraill sydd, ym marn y PGD, yn ddigon i ganiatáu i swyddogaethau'r PGD gael eu cyflawni.
24. Diben y swydd yw sicrhau bod digon o gymorth yn cael ei roi i gynghorwyr y tu allan i'r weithrediaeth i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol, a hynny gyda'r ddarpariaeth angenrheidiol o ran gweinyddu ac ymchwilio.



16. The change is intended to introduce more flexibility for meeting arrangements to accommodate the needs of councillors from more diverse backgrounds.
17. Local authorities must have regard to guidance which the Welsh Ministers may issue on remote attendance.

#### **Section 5 – Annual reports by members of a local authority**

18. Requires a local authority to make arrangements to publish annual reports by its members and by members of its executive upon their activities pursuant to either or both roles in the year to which the report relates.
19. The arrangements made by the authority may include conditions as to the content of a report that must be satisfied by the person making it and the authority must publicise those arrangements. Local authorities must have regard to guidance which the Welsh Ministers may issue on annual reports.

#### **Section 6 – Timing of council meetings**

20. Empowers the Welsh Ministers to issue guidance about the timing of meetings of a local authority (including meetings of any committee or sub-committee) with a view to introducing more flexible arrangements to accommodate councillors from more diverse backgrounds. It requires local authorities to have regard to that guidance.

#### **Section 7 – Training and development of members of a local authority**

21. Places a duty on principal councils to secure the provision of reasonable training and development opportunities for their members. Each principal council must make available to its members an annual review of their training and development needs, including an opportunity for an interview with a person considered suitably qualified to advise upon the same. Local authorities must have regard to guidance which the Welsh Ministers may issue on these matters.

#### **Section 8 – Head of democratic services**

22. Requires the Democratic Services Committee of each principal council to designate one of the authority's officers to be the Head of Democratic Services ("HDS"), but its head of paid service, monitoring officer or chief finance officer cannot be designated in this respect.
23. The HDS may arrange for the discharge of democratic services functions by staff and the HDS must be provided with such staff, accommodation and other resources as are, in the opinion of the HDS, sufficient to allow their functions to be discharged.
24. The purpose of the post is to ensure that councillors outside the executive are provided with sufficient support to enable them to carry out their duties effectively, with the necessary administrative and research provision.

### **Adran 9 – Swyddogaethau gwasanaethau democrataidd**

25. Mae'n nodi'r swyddogaethau a ymddiriedir i Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd, gan gynnwys:-

- a) rhoi cymorth a chyngor i'r awdurdod mewn perthynas â'i gyfarfodydd;
- b) rhoi cymorth a chyngor i bwyllgorau (gan gynnwys cyd-bwyllgorau ac is-bwyllgorau, ond heb gynnwys y pwyllgor trosolwg a chraffu a'r pwyllgor gwasanaethau democrataidd);
- c) hybu rôl pwyllgor(au) trosolwg a chraffu'r awdurdod;
- d) rhoi cymorth a chyngor i bwyllgor(au) trosolwg a chraffu'r awdurdod ac aelodau o'r pwyllgor hwnnw neu'r pwyllgorau hynny, ac yn yr un modd i bwyllgor gwasanaethau democrataidd yr awdurdod;
- e) rhoi cymorth a chyngor, mewn perthynas â swyddogaethau pwyllgor(au) trosolwg a chraffu'r awdurdod, i aelodau'r awdurdod, aelodau'r weithrediaeth a swyddogion yr awdurdod;
- f) rhoi cymorth a chyngor i aelodau o'r awdurdod i gyflawni ei rôl fel aelod o'r awdurdod. Nid yw hyn yn ymestyn i roi cymorth a chyngor i aelod i gyflawni ei swyddogaeth fel aelod o'r weithrediaeth (ac eithrio ar gyfer y swyddogaethau hynny a gofnodwyd gan (e) uchod), a/neu gyngor ynghylch a ddylai swyddogaethau'r awdurdod gael eu harfer neu fod wedi eu harfer mewn perthynas â mater sy'n cael ei ystyried, neu sydd i'w ystyried, mewn cyfarfod o'r awdurdod neu bwyllgor o'r awdurdod (gan gynnwys cyd-bwyllgor neu is-bwyllgor); ac
- g) gwneud adroddiadau a argymhellion ynghylch materion staffio sy'n ymwneud â chyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd.

26. Caniateir i swyddogaethau eraill y PGD gael eu rhagnodi mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru; ac mae is-ddeddfwriaeth o'r fath i ddilyn y weithdrefn gadarnhaol. Nid yw "cyngor" yn (a) a (b) uchod yn cynnwys cyngor ynghylch sut y dylai swyddogaeth yr awdurdod gael, neu fod wedi cael, ei harfer. Nid oes dim yn yr adran hon sy'n effeithio ar ddyletswydd pennaeth gwasanaeth cyflogedig yr awdurdod.

### **Adran 10 – Dyletswydd i fabwysiadu rheolau sefydlog ynghylch rheoli staff**

27. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgorffori mewn rheolau sefydlog ddarpariaethau rhagnodedig ynghylch rheoli staff a ddarperir i'r PGD ac addasiadau eraill i reolau sefydlog yr awdurdod sy'n ymwneud â rheoli staff. Ni fyddai modd i'r rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru gwmpasu penodi, diswyddo staff na disgyblu'r staff y cyfeirir atynt.



## **Section 9 – Democratic services functions**

25. Sets out the functions that the Head of Democratic Services is charged with, which include:-
- a) providing support and advice to the authority in relation to its meetings;
  - b) providing support and advice to committees (including joint and sub-committees, but excluding overview and scrutiny committee and the democratic services committee);
  - c) promoting the role of the authority's overview and scrutiny committee/s;
  - d) providing support and advice to the authority's overview and scrutiny committee/s and the members of the same, and similarly to the authority's democratic services committee;
  - e) providing support and advice in relation to the functions of the authority's overview and scrutiny committee/s to the members of authority, members of the executive and officers of the authority;
  - f) providing support and advice to members of the authority in carrying out their role as a member of the authority. This does not extend to support and advice to a member in discharging his/her functions as a member of the executive (save for those functions captured by (e) above), and/or advice about how the authority's functions should be, or should have been, exercised in relation to a matter under consideration/to be considered at a meeting or committee of the authority (including joint or sub-committee); and
  - g) making reports and recommendation in respect of staffing issues in relation to the discharge of democratic services functions.
26. Other functions of the HDS may be prescribed in regulation by the Welsh Ministers; such subordinate legislation to follow the affirmative procedure. "Advice" in (a) and (b) above does not include advice about whether or how the authority's function should be, or should have been, exercised. Nothing in this section affects the duty of the authority's head of paid service.

## **Section 10 – Duty to adopt standing orders about management of staff**

27. Enables the Welsh Ministers to make regulations requiring local authorities to incorporate in standing orders prescribed provisions relating to the management of staff provided to the HDS and other modifications of the authority's standing orders relating to the management of staff. The regulations made by the Welsh Ministers could not cover the appointment, dismissal or disciplining of the staff referred to.

### **Adran 11 – Awdurdodau lleol i benodi pwyllgorau gwasanaethau democrataidd**

28. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol benodi pwyllgor o'r cyngor i ddynodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, arolygu gwaith y Gwasanaethau Democrataidd, sicrhau bod digon o adnoddau ar gyfer y gwaith a chyflwyno adroddiad i'r cyngor llawn yn unol â hynny.

### **Adran 12 – Aelodaeth**

29. Mae'n nodi'r aelodaeth o'r pwyllgor gwasanaethau democrataidd. Mae aelodaeth o'r pwyllgor wedi ei chyfyngu i gynghorwyr (dim aelodau cyfetholedig), dim ond un aelod o weithrediaeth y cyngor a gaiff fod yn aelod, ac ni chaiff pennaeth gweithrediaeth y cyngor fod yn aelod o'r pwyllgor. Ni chaiff y cadeirydd fod yn aelod o'r grŵp gweithredol (ac eithrio mewn awdurdodau lle y mae pob grŵp gwleidyddol yn cael ei gynrychioli ar weithrediaeth yr awdurdod ac yn yr achos hwnnw ni chaiff y cadeirydd fod yn aelod o'r weithrediaeth). Rhaid i aelodaeth y pwyllgor adlewyrchu'r cydbwysedd gwleidyddol ar y cyngor llawn yn unol ag adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

### **Adran 13 – Is-bwyllgorau**

30. Mae'n caniatáu i'r pwyllgor gwasanaethau democrataidd sefydlu is-bwyllgorau, a gaiff gyflawni ei swyddogaethau.

### **Adran 14 – Trafodion etc**

31. Mae'n nodi darpariaethau sy'n llywodraethu trafodion pwyllgorau gwasanaethau democrataidd, gan gynnwys: y dylai'r cadeirydd gael ei benodi gan y cyngor llawn; bod rhaid i'r cadeirydd beidio â bod yn aelod o grŵp sy'n rhan o weithrediaeth y cyngor; ac eithrio pan fo pob grŵp wedi ei gynrychioli ar y weithrediaeth (ac yn yr achos hwnnw rhaid i'r cadeirydd beidio bod yn aelod o'r weithrediaeth); y dylai cadeiryddion unrhyw is-bwyllgorau gael eu penodi gan y pwyllgor gwasanaethau democrataidd; nad oes unrhyw gyfyngiadau ar bleidleisio ar gyfer aelodau o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgorau; y caiff y pwyllgor (ac is-bwyllgor) alw tystion ( a fydd o dan ddyletswydd i'w fynychu os ydynt yn aelodau'r awdurdod neu'n swyddogion i'r awdurdod, ond ni orfodir tyst o unrhyw ddisgrifiad i ateb unrhyw gwestiwn y byddai hawl ganddynt i wrthod ei ateb mewn achos llys, neu mewn cysylltiad ag achos o'r fath, yng Nghymru a Lloegr); ac y bydd cyfarfodydd, papurau a chofnodion y pwyllgor (a'r is-bwyllgor) hwnnw yn ddarostyngedig i'r gofynion ynghylch mynediad, cyhoeddi ac arolygu a nodir yn Rhan VA o Ddeddf 1972.

### **Adran 15 – Cynnal cyfarfodydd: pa mor aml**

32. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor gwasanaethau democrataidd gyfarfod o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn galendr, ond caiff gyfarfod yn amlach na hynny. Yn ychwanegol, rhaid i'r pwyllgor gwasanaethau democrataidd gyfarfod os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu y dylai wneud hynny, neu fod traean o leiaf o'i aelodau yn galw am gyfarfod yn y modd a nodir.

### **Adran 16 – Cyflawni swyddogaethau**

33. Mae'n cyfyngu ar y swyddogaethau y caiff y pwyllgor gwasanaethau democrataidd eu harfer i'r rhai a nodir yn y bennod hon o'r mesur; rhaid i'r pwyllgor (ac unrhyw is-bwyllgorau) roi sylw i unrhyw ganllawiau y caiff Gweinidogion Cymru eu dyroddi ar gyflawni swyddogaethau.

### **Section 11 – Local authorities to appoint democratic services committees**

28. Requires local authorities to appoint a committee of the council to designate the Head of Democratic Services, oversee the work of Democratic Services, ensure that the work is adequately resourced and report to the full council accordingly.

### **Section 12 – Membership**

29. Sets out the membership of the democratic services committee. Membership of the committee is limited to councillors (no co-opted members), only one member of the council's executive may be a member, and the leader of the council executive may not be a committee member. The chair may not be a member of the executive group (save in authorities where all political groups were represented on the authority's executive in which case the chair may not be a member of the executive). The committee membership must reflect the political balance on the full council in line with section 15 of the Local Government and Housing Act 1989.

### **Section 13 – Sub-committees**

30. Allows the democratic services committee to establish sub-committees, which may discharge its functions.

### **Section 14 – Proceedings etc**

31. Sets out provisions governing the proceedings of democratic services committees, including: that the chair should be appointed by the full council; the chair must not be a member of a group which forms part of the council's executive, except where all groups are represented on the executive (in which case the chair must not be a member of the executive); the chairs of any sub-committees should be appointed by the democratic services committee; that there are no restrictions on voting for members of the committee or sub-committees; that the committee (and a sub-committee) may call witnesses (who will be under a duty to attend if they are members or officers of the authority, but a witness of any description will not be obliged to answer any question which they would be entitled to refuse to answer in, or in connection with, court proceedings in England and Wales); and that committee (and sub-committee) meetings, papers and minutes will be subject to the requirements regarding access, publication and inspection as are set out in Part VA of the 1972 Act.

### **Section 15 – Frequency of meetings**

32. Requires that the democratic services committee must meet at least once a calendar year, but may meet more frequently than that. In addition, the democratic services committee must meet if the local authority resolves that it should, or at least one-third of its members requisition a meeting in the manner set out.

### **Section 16 – Discharging functions**

33. Limits the exercise of functions by the democratic services committee to those set out in this chapter of the measure; the committee (and any sub-committees) must have regard to any guidance which the Welsh Ministers may issue on the discharge of functions.

**Adran 17 – Terfynu aelodaeth pan fo person yn peidio â bod yn aelod o awdurdod**

34. Bydd aelodaeth cynghorydd o bwyllgor (neu is-bwyllgor) gwasanaethau democrataidd yn peidio os bydd y cynghorydd hwnnw'n peidio â bod yn aelod o'r cyngor, ond ni effeithir arno os yw aelodaeth y cynghorydd o'r cyngor wedi peidio am fod tymor ei swydd fel cynghorydd wedi dirwyn i ben a'i fod yn cael ei ailethol yn yr etholiadau nesaf (mae hyn yn ddarostyngedig i reolau sefydlog yr awdurdod neu'r pwyllgor/is-bwyllgor gwasanaethau democrataidd).

**Adran 18 – Adroddiadau ac argymhellion gan bennaeth y gwasanaethau democrataidd**

35. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i bennaeth y gwasanaethau democrataidd anfon copi o unrhyw adroddiad neu argymhellion a luniwyd ganddo am y materion staffio sy'n ymwneud â chyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd at bob aelod o'r pwyllgor gwasanaethau democrataidd. Rhaid cynnal cyfarfod o'r pwyllgor i ystyried adroddiadau neu argymhellion o'r fath cyn pen tri mis ar ôl iddynt gael eu hanfon at aelodau'r pwyllgor.

**Adran 19 – Adroddiadau ac argymhellion gan bwyllgorau gwasanaethau democrataidd**

36. Os bydd pwyllgor gwasanaethau democrataidd yn llunio unrhyw adroddiad neu'n gwneud argymhellion ynghylch darparu staff, llety ac adnoddau eraill sy'n cael eu darparu gan yr awdurdod lleol ar gyfer cyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, rhaid anfon copi at bob aelod o'r awdurdod nad yw'n aelod o'r pwyllgor cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Rhaid cynnal cyfarfod o'r cyngor llawn i ystyried yr adroddiadau neu'r argymhellion hynny cyn pen tri mis ar ôl iddynt gael eu hanfon at aelodau o'r awdurdod.

**Adran 20 – Swyddogaethau awdurdod lleol nad ydynt i'w dirprwyo**

37. Mae'r adran hon yn sicrhau na chaiff yr awdurdod lleol ddirprwyo'r dyletswyddau a'r swyddogaethau a roddir iddo gan y Mesur hwn parthed: dynodi pennaeth y gwasanaethau democrataidd; darparu staff, llety ac adnoddau eraill iddo; penodi pwyllgor gwasanaethau democrataidd, ei aelodau (gan gydymffurfio â'r darpariaethau) a'i gadeirydd; penderfynu y dylai pwyllgor gwasanaethau democrataidd gyfarfod; ac ystyried adroddiad neu argymhellion a luniwyd gan y pwyllgor gwasanaethau democrataidd.

**Adran 21 – Swydd pennaeth gwasanaethau democrataidd i fod yn swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol**

38. Mae'n diwygio adran 2(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i gynnwys pennaeth gwasanaethau democrataidd fel swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol. Effaith hyn yw atal deiliad y swydd rhag cael unrhyw rôl wleidyddol weithgar naill ai y tu mewn neu y tu allan i'r gweithle. Caiff cyflogeion o dan gyfyngiadau gwleidyddol eu hanghymhwysu'n awtomatig rhag ymgeisio am swydd etholedig neu ddal swydd o'r fath ac mae'n rhaid i'r cyfyngiadau hyn gael eu hymgorffori fel telerau yng nghontract cyflogi'r cyflogai o dan adran 3 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) 1990.

**Section 17 – Termination of membership on ceasing to be a member of authority**

34. A councillor's membership of a democratic services committee (or sub-committee) will cease if that councillor ceases to be a member of the council, but will not be affected if the councillor's membership of the council ceased because his/her term of office as a councillor has expired and he/she is re-elected at the next elections (this is subject to the standing orders of the authority or the democratic services sub/committee).

**Section 18 – Reports and recommendations by head of democratic services**

35. Requires the head of democratic services to send a copy of any report or recommendations he or she has prepared on the staffing issues in relation to the discharge of democratic services functions to all members of the democratic services committee. A meeting of the committee must be held to consider such reports or recommendations within three months of their being sent to committee members.

**Section 19 – Reports and recommendations by democratic services committees**

36. If a democratic services committee prepares any report or makes recommendations about the provision of staff, accommodation and other resources provided by the local authority for the discharge of democratic service functions, a copy must be sent to each member of the authority who is not a member of the committee, as soon as practicable. A meeting of the full council must be held to consider such reports or recommendations within three months of their being sent to authority members.

**Section 20 – Local authority functions not to be delegated**

37. This section ensures that the local authority is not permitted to delegate the duties and functions bestowed on it by this Measure in respect of: designating the head of democratic services; providing him/her with staff, accommodation and other resources; appointment of a democratic services committee, its members (in compliance with the provisions) and its chair; resolving that a democratic services committee should meet; and considering a report or recommendations prepared by the democratic services committee.

**Section 21 – Head of democratic services to be a politically restricted post**

38. Amends section 2(1) of the Local Government and Housing Act 1989 to include the head of democratic services as a politically restricted post. The effect is that the post-holder is prevented from having any active political role either in or outside the workplace. Politically restricted employees will automatically be disqualified from standing for or holding elected office and these restrictions must be incorporated as terms in the employee's contract of employment under section 3 of the Local Government (Political Restrictions) Regulations 1990.



### **Adran 22 – Ystyr “aelod”**

39. Mae'n darparu bod cyfeiriad, yn y Rhan hon o'r Mesur, at aelod etholedig yn cynnwys aelod o weithrediaeth awdurdod lleol ond nid yw'n cynnwys maer etholedig.

### **Rhan 2 – Absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau awdurdodau lleol**

40. Mae'r darpariaethau yn y Rhan hon o'r Mesur yn rhoi ar gael i aelodau o brif gynghorau (gan gynnwys aelodau o'r weithrediaeth) hawl i absenoldeb mamolaeth, absenoldeb newydd-anedig, absenoldeb mabwysiadu ac absenoldeb rhiant (“absenoldeb teuluol”) i roi cymorth i gynghorwyr a'r rhai sydd am ymgeisio mewn etholiad ac y gall fod ganddynt gyfrifoldebau teuluol.

### **Adran 23 – Yr hawl i absenoldeb teuluol**

41. Mae'n sefydlu hawl i gynghorwyr prif gyngor gael absenoldeb teuluol ac yn nodi'r mathau gwahanol o absenoldeb teuluol.

### **Adran 24 – Absenoldeb mamolaeth**

42. Mae'n rhoi hawl i gynghorydd gael cyfnod o hyd at 26 wythnos o absenoldeb mamolaeth os yw'r cynghorydd wedi geni plentyn ac yn bodloni amodau rhagnodedig. Mae'r adran yn darparu i'r manylion sy'n ymwneud ag absenoldeb mamolaeth gael eu nodi mewn rheoliadau, a thrwy hynny mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb i unrhyw newidiadau a wneir yn y drefn ehangach ym maes cyflogaeth.

### **Adran 25 – Absenoldeb newydd-anedig**

43. Mae'n rhoi hawl i gynghorydd gael hyd at ddwy wythnos o absenoldeb yn achos cynghorydd sy'n bodloni amodau mewn perthynas ag “absenoldeb newydd-anedig”. Rhaid cymryd yr absenoldeb o fewn cyfnod o 56 o ddiwrnodau gan ddechrau gyda genedigaeth plentyn y mae gan y cynghorydd berthynas ag ef yn y modd a nodir mewn amodau rhagnodedig. Mae'r adran yn darparu bod y manylion sy'n ymwneud ag absenoldeb newydd-anedig yn cael eu nodi mewn rheoliadau, a thrwy hynny mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb i unrhyw newidiadau a wneir yn y drefn ehangach ym maes cyflogaeth ac adlewyrchu unrhyw newidiadau o'r fath.

### **Adran 26 – Absenoldeb mabwysiadydd**

44. Mae'r adran hon yn rhoi hawl i gynghorydd sy'n bodloni amodau rhagnodedig gael cyfnod o absenoldeb pan fo'r cynghorydd hwnnw (p'un ai'n unigol neu ar y cyd â pherson arall) yn mabwysiadu plentyn. Bydd y cyfnod o absenoldeb yn gyfnod o hyd at ddwy wythnos. Mae'r adran yn darparu bod y manylion sy'n ymwneud ag absenoldeb mabwysiadydd yn cael eu nodi mewn rheoliadau, a thrwy hynny mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb i unrhyw newidiadau a wneir yn y drefn ehangach ym maes cyflogaeth ac adlewyrchu unrhyw newidiadau o'r fath.

### **Adran 27 – Absenoldeb mabwysiadu newydd**

45. Mae'r adran hon yn rhoi hawl i gynghorydd gael cyfnod o absenoldeb os partner person sydd i fabwysiadu plentyn yw'r cynghorydd hwnnw. Mae absenoldeb mabwysiadu newydd ar gael i berson at ddibenion gofalu am blentyn sydd wedi ei fabwysiadu neu roi cymorth i'r person sydd i fabwysiadu'r plentyn. Mae rheoliadau i osod yr amodau y mae'n rhaid i berson eu bodloni ynglŷn â'i berthynas â pherson



### **Section 22 – Meaning of “member”**

39. Provides that in this Part of the Measure, a reference to an elected member includes a member of a local authority executive but does not include an elected mayor.

### **Part 2 - Family Absence for members of local authorities**

40. The provisions in this Part of the Measure make available to members of principal councils (including members of the executive) entitlement to maternity, newborn, adoption and parental absence (“family absence”) to support councillors and those wanting to stand for election who may have family responsibilities.

### **Section 23 – Right to family absence**

41. Establishes an entitlement to councillors of a principal council to family absence and sets out the different types of family absence.

### **Section 24 – Maternity absence**

42. Entitles a councillor to a period of up to 26 weeks maternity absence if the councillor has given birth to a child and satisfies prescribed conditions. The section provides for the details relating to maternity absence to be set out in regulations, thereby allowing the Welsh Ministers to respond to and reflect any changes made in the wider employment regime.

### **Section 25 – Newborn absence**

43. Entitles a councillor to up to two weeks absence for a councillor who satisfies conditions in relation to “newborn absence”. The absence must be taken within a period of 56 days beginning with the birth of a child with which the councillor has a relationship as set down in prescribed conditions. The section provides for the details relating to newborn absence to be set out in regulations, thereby allowing the Welsh Ministers to respond to and reflect any changes made in the wider employment regime.

### **Section 26 – Adopter’s absence**

44. This section entitles a councillor who satisfies prescribed conditions to a period of absence where that councillor (whether individually or jointly with another person) adopts a child. The period of absence is to be up to two weeks. The section provides for the details relating to adopter’s absence to be set out in regulations, thereby allowing the Welsh Ministers to respond to and reflect any changes made in the wider employment regime.

### **Section 27 – New adoption absence**

45. This section entitles a councillor to a period of absence where that councillor is the partner of a person who is to adopt a child. New adoption absence is available to a person for the purpose of caring for a child who is adopted or supporting the person who is to adopt the child. Regulations are to set out the conditions that a person must satisfy about his or her relationship with a person who is to adopt a child and his or her relationship with the child that is to be placed for adoption in order to qualify for new adoption absence. The period of absence is to be up to two weeks. The section provides for the details relating to new adoption absence to be set out in regulations, thereby allowing the Welsh Ministers to respond to and reflect any changes made in the wider employment regime.

sydd i fabwysiadu plentyn a'i berthynas â'r plentyn sydd i'w leoli ar gyfer ei fabwysiadu er mwyn cymhwyso ar gyfer absenoldeb mabwysiadu newydd. Bydd y cyfnod o absenoldeb yn gyfnod o hyd at ddwy wythnos. Mae'r adran yn darparu bod y manylion sy'n ymwneud ag absenoldeb mabwysiadu newydd yn cael eu nodi mewn rheoliadau, a thrwy hynny mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb i unrhyw newidiadau a wneir yn y drefn ehangach ym maes cyflogaeth ac adlewyrchu unrhyw newidiadau o'r fath.

#### **Adran 28 – Absenoldeb rhiant**

46. Mae'n rhoi hawl i gynghorydd gael cyfnod o absenoldeb o hyd at dri mis os oes gan gynghorydd gyfrifoldebau dros blentyn neu os yw'n disgwyl cael cyfrifoldebau o'r fath ("absenoldeb rhiant"). Mae'r adran yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau sy'n nodi manylion absenoldeb rhiant.

#### **Adran 29 – Rheoliadau atodol**

47. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n nodi manylion a gofynion gweinyddol penodol ar gyfer awdurdodau lleol ac aelodau o awdurdodau lleol mewn cysylltiad â'r hawliau newydd a gyflwynir gan y darpariaethau yn y Rhan hon.

#### **Adran 30 – Canllawiau**

48. Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ar hawliau i absenoldeb teuluol y mae'n rhaid i brif gynghorau roi sylw iddynt.

#### **Adran 31 – Diwygio Deddf Llywodraeth Leol 1972**

49. Mae'n diwygio adran 85 o Ddeddf 1972 fel na fydd cyfnod o "absenoldeb teuluol" (fel y darperir ar ei gyfer gan y Mesur hwn), ynddo'i hun, yn peri i gynghorydd fod yn agored i ofyniad iddo adael ei swydd yn rhinwedd y ffaith nad yw wedi mynychu cyfarfodydd cyngor am chwe mis.
50. Mae'r adran 85 bresennol o Ddeddf 1972 yn dweud y bydd cynghorydd yn peidio â dal ei swydd os bydd yn methu â mynychu unrhyw un neu rai o gyfarfodydd ei awdurdod yn ystod cyfnod o chwe mis yn olynol heb reswm a gymeradwywyd gan yr awdurdod. Mae'r is-adran newydd (3C), a fewnosodir yn adran 85 o Ddeddf 1972, yn sicrhau na chaiff absenoldeb teuluol ei gymryd i ystyriaeth i gyfrifo cyfnod absenoldeb o chwe mis. Mae'r adran newydd (3D) yn darparu y ceir cymryd i ystyriaeth, wrth gyfrifo'r cyfnod absenoldeb o chwe mis, y cyfnodau yn union cyn ac yn union ar ôl y cyfnod o absenoldeb teuluol.

#### **Adran 32 - Diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2000**

51. Mae'n diwygio adran 11 o Ddeddf 1972 i ganiatáu i derfyn statudol ar faint gweithrediaeth awdurdod lleol gael ei godi i ganiatáu i rywun gael ei benodi dros dro yn lle aelod gweithredol sy'n cymryd absenoldeb teuluol yn ôl y ddarpariaeth yn Rhan 2 o'r Mesur hwn. Darpariaeth alluogi yw hon felly nid oes rhaid penodi aelod ychwanegol.

#### **Adran 33 – Dehongli Rhan 2**

52. Mae'n darparu dehongliad o dermau penodol a ddefnyddir yn y Rhan hon o'r Mesur.

### **Section 28 – Parental absence**

46. Entitles a councillor to a period of absence of up to three months if the councillor has or expects to have responsibilities for a child (“parental absence”). The section provides for the Welsh Ministers to make regulations setting out the details of parental absence.

### **Section 29 – Regulations: supplemental**

47. Enables the Welsh Ministers to make regulations setting out certain administrative details and requirements for local authorities and members of local authorities in connection with the new entitlements introduced by the provisions in this Part.

### **Section 30 – Guidance**

48. Empowers the Welsh Ministers to issue guidance on family absence entitlements, to which principal councils must have regard.

### **Section 31 – Amendment of the Local Government Act 1972**

49. Amends section 85 of the 1972 Act so that a period of “family absence” (as provided for by this Measure) does not, in itself, leave a councillor liable to being required to vacate office by virtue of not having attended council meetings for six months.
50. The existing section 85 of the 1972 Act states that if a councillor fails to attend any meetings of his/her authority during a period of six consecutive months without a reason approved by the authority, he or she ceases to hold office. The new subsection (3C), inserted in section 85 of the 1972 Act, ensures that family absence will not be taken into account for calculating a six month period of absence. The new section (3D) provides that calculating the six month period of absence may take into account the periods immediately before and immediately after the period of family absence.

### **Section 32 Amendment of Local Government Act 2000**

51. Amends section 11 of the 1972 Act to allow the statutory limit on the size of a local authority executive to be increased to allow the appointment of a temporary replacement for an executive member who is taking family absence as provided for in Part 2 of this measure. This is an enabling provision so there is no obligation to appoint an additional member.

### **Section 33 – Interpretation of Part 2**

52. Provides interpretation of certain terms used in this Part of the Measure.

### **Rhan 3 – Trefniadau Llywodraethu sydd ar gael**

#### **Adran 34 – Diddymu gweithrediaeth maer a rheolwr cyngor**

53. Mae'n diwygio Deddf 2000 i ddileu opsiwn y weithrediaeth maer a rheolwr cyngor o'r trefniadau gweithrediaeth sydd ar gael yng Nghymru.

#### **Adran 35 – Awdurdodau i roi trefniadau gweithrediaeth yn lle trefniadau amgen**

54. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol yng Nghymru sy'n gweithredu trefniadau amgen (y cyfeirir atynt hefyd fel y "Pedwerydd Opsiwn") i roi'r gorau i wneud hynny ac i ddechrau gweithredu yn lle hynny ffurf a ganiateir, sef ffurf ar drefniadau gweithrediaeth. Mae'r weithdrefn ar gyfer y trosiad o drefniadau amgen i drefniadau gweithrediaeth wedi ei nodi yn Atodlen 1 i'r Mesur hwn y mae'r adran hon yn rhoi ei heffaith iddo. Wrth gydymffurfio â'r adran hon a'r Atodlen, bydd yn rhaid i unrhyw awdurdod lleol y mae arno angen roi'r newid ar waith gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru. Mae paragraff 13(2) o Ran 2 o'r Atodlen yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu, drwy orchymyn, i'r awdurdod lleol roi'r gorau i weithredu trefniadau amgen a dechrau gweithredu trefniadau gweithrediaeth yn unol ag adran 35.

#### **Atodlen 1 – Newid trefniadau amgen yn drefniadau gweithrediaeth**

55. Mae adran 35 yn rhoi effaith i'r Atodlen hon sy'n nodi'n fanwl y weithdrefn y bydd yn rhaid i awdurdod lleol, sydd ar hyn o bryd yn gweithredu trefniadau amgen, ei dilyn pan fydd yn gwneud y newid i drefniadau gweithrediaeth fel sy'n ofynnol yn adran 35 o'r Mesur hwn. Mae paragraff 13(2) o Ran 3 o'r Atodlen yn rhoi i Weinidogion Cymru bŵer diofyn i'w gwneud yn ofynnol drwy orchymyn i awdurdod lleol roi'r gorau i weithredu trefniadau amgen ac i ddechrau gweithredu ffurf benodedig ar drefniadau gweithrediaeth pan fo awdurdod yn methu â gwneud y newid yn unol ag adran 35.

#### **Adran 36 – Darpariaeth ganlyniadol etc**

56. Mae'n gwneud diwygiadau canlyniadol i ddarpariaethau yn Neddf 2000 i adlewyrchu'r ffaith bod y trefniadau amgen presennol yn cael eu dileu yng Nghymru. Nid oes angen mwyach yr adran 29(3) bresennol o Ddeddf 2000 sy'n caniatáu i awdurdodau lleol yng Nghymru newid o drefniadau gweithrediaeth i drefniadau amgen; mae'r newidiadau eraill yn dileu cyfeiriadau at weithdrefnau mewn perthynas â gweithredu trefniadau amgen a fydd wedi darfod amdanynt pan gaiff yr opsiwn hwnnw ei ddileu.
57. Mae is-adrannau (5) – (8) yn caniatáu i awdurdod lleol sydd ar hyn o bryd yn gweithredu trefniadau amgen barhau i wneud hynny ar ôl i'r darpariaethau yn y Mesur ddod i rym. Effaith hynny yw caniatáu cyfnod trosiannol i awdurdod sy'n gweithredu trefniadau amgen; maent yn cysylltu â'r gofyniad ym mharagraff 2(4) o Atodlen 1 i'r Mesur hwn sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol fod wedi newid o drefniadau amgen i drefniadau gweithrediaeth cyn pen chwe mis ar ôl y dyddiad y daw adran 35 yn y Mesur hwn i rym.

### **Rhan 4 – Newidiadau mewn Trefniadau Gweithrediaeth**

#### **Adran 37 – Y pŵer i fabwysiadu ffurf wahanol ar weithrediaeth**

58. Mae'n gwneud darpariaeth newydd i symleiddio'r weithdrefn i awdurdod lleol sydd eisoes yn gweithredu un ffurf ar drefniadau gweithrediaeth a ganiateir newid i ffurf arall ar drefniadau gweithrediaeth, ond yn ei alluogi i wneud newid o'r fath

### **Part 3 – Available Governance Arrangements**

#### **Section 34 - Abolition of mayor and council manager executive**

53. Amends the 2000 Act to remove the elected mayor and council manager option from the executive arrangements available in Wales.

#### **Section 35 – Authorities to replace alternative arrangements with executive arrangements**

54. Requires a local authority in Wales which operates alternative arrangements (also referred to as “the Fourth Option”) to cease doing so and start to operate a permitted form of executive arrangements instead. The procedure for the transition from alternative to executive arrangements is set out in Schedule 1 to this Measure to which this section gives effect. In complying with this section and the Schedule, any local authority needing to make the change will have to comply with any directions issued by the Welsh Ministers. Paragraph 13(2) of Part 2 of the Schedule allows the Welsh Ministers by order to provide for the local authority to cease to operate alternative arrangements and start operating executive arrangements in accordance with section 35.

#### **Schedule 1 – Change from alternative to executive arrangements**

55. Section 35 gives effect to this Schedule which sets out in detail the procedure which a local authority which currently operates alternative arrangements will have to follow when it makes the change to executive arrangements as required in section 35 of this Measure. Paragraph 13(2) of Part 3 of the Schedule gives the Welsh Ministers a default power to require a local authority by order to cease operating alternative arrangements and to start to operate a specified form of executive arrangements where an authority fails to make the change in accordance with section 35.

#### **Section 36 - Consequential provision etc**

56. Makes consequential amendments to provisions in the 2000 Act to reflect the removal of the existing alternative arrangements in Wales. The existing section 29(3) of the 2000 Act which allows local authorities in Wales to change from executive arrangements to alternative arrangements is no longer required; the other changes remove references to procedures in relation to operating alternative arrangements which will be obsolete with the removal of that option.
57. Subsections (5) – (8) permit a local authority currently operating alternative arrangements to continue to do so after the provisions in the Measure come into force. The effect is to allow a transition period for an authority operating alternative arrangements; they link with the requirement in paragraph 2(4) of Schedule 1 to this Measure which requires a local authority to have changed from alternative to executive arrangements within six months of section 35 in this Measure coming into force.

### **Part 4 – Changes to Executive Arrangements**

#### **Section 37 – Power to adopt a different form of executive**

58. Makes new provision to simplify the procedure for a local authority already operating one form of permitted executive arrangements to change to another form of executive arrangements, but enable them to make such a change only once between ordinary elections. The new procedures mean that an authority will no longer need to formally consult local electors or prepare “fall-back” proposals.



unwaith yn unig rhwng etholiadau cyffredin. Mae'r gweithdrefnau newydd yn golygu na fydd angen mwyach i awdurdod ymgynghori'n ffurfiol ag etholwyr lleol na llunio cynigion wrth gefn.

**Adran 38 – Y cynigion ar gyfer mabwysiadu ffurf wahanol ar weithrediaeth**

**Adran 39 – Cynnwys y cynigion**

**Adran 40 – Refferenda**

**Adran 41 – Yr amserlen ar gyfer rhoi'r cynigion ar waith: dim refferendwm**

**Adran 42 – Yr amserlen ar gyfer rhoi'r cynigion ar waith: refferendwm**

**Adran 43 – Cyhoeddusrwydd i'r cynigion**

**Adran 44 – Rhoi'r cynigion ar waith**

**Adran 45 – Camau gweithredu os yw'r newid yn cael ei wrthod mewn refferendwm**

59. Mae'r adrannau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer awdurdod lleol sydd am newid o un ffurf ar drefniadau gweithrediaeth i un arall, ac yn nodi'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol i'r awdurdod hwnnw eu dilyn, a chynnwys y cynigion ar gyfer y newid y mae'n rhaid iddo eu paratoi a'u hanfon at Weinidogion Cymru (gweler adran 38).

60. Os yw'r newid arfaethedig yn newid i ffurf ar drefniadau gweithrediaeth sy'n cynnwys maer etholedig, rhaid i'r cynigion gynnwys darpariaeth ar gyfer refferendwm o etholwyr llywodraeth leol yn yr awdurdod o dan sylw i gymeradwyo'r newid arfaethedig, ond rhaid peidio â chynnal refferendwm os yw'r newid y newid i unrhyw ffurf arall ar drefniadau gweithrediaeth (adran 40). Mae gofyniad i gynnal refferendwm yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad yn adran 45 o Ddeddf 2000 na chaniateir i refferendwm ar drefniadau gweithrediaeth gael ei gynnal fwy nag unwaith mewn unrhyw gyfnod o bum mlynedd. Mae'r amserlenni ar gyfer rhoi ar waith newid y cytunwyd arno wedi eu nodi yn adrannau 41 a 42. Os yw awdurdod yn cymeradwyo newid nad yw'n ofynnol cael cymeradwyaeth ar ei gyfer mewn refferendwm, rhaid iddo roi cyhoeddusrwydd i'r newid arfaethedig yn y modd a nodir yn adran 43.

61. Os oes rhaid cynnal refferendwm a bod y newid yn cael ei wrthod gan y pleidleiswyr, ni chaiff yr awdurdod roi'r newid ar waith (adran 44). Rhaid iddo ddilyn y weithdrefn yn adran 45 a pharhau i weithredu ei drefniadau gweithrediaeth presennol.

**Adran 46 – Newid mewn trefniadau gweithrediaeth y mae'n ofynnol ei gymeradwyo mewn refferendwm**

62. Mae'r adran hon yn darparu ei bod yn ofynnol i newid mewn trefniadau gweithrediaeth gael ei gymeradwyo mewn refferendwm os yw naill ai'r model presennol neu'r model arfaethedig yn weithrediaeth maer a chabinet.

**Adran 47 – Dehongli**

63. Mae'r adran hon yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn y Bennod hon o'r Mesur.



**Section 38 – Proposals for adopting a different form of executive**

**Section 39 – Contents of proposals**

**Section 40 – Referendums**

**Section 41 – Timetable for implementation of proposals: no referendum**

**Section 42 – Timetable for implementation of proposals: referendum**

**Section 43 – Publicity for proposals**

**Section 44 – Implementing proposals**

**Section 45 – Action if referendum rejects a change**

59. These sections make provision for and set out the procedures required of a local authority wanting to change from one form of executive arrangements to another and the contents of the proposals for the change which it must prepare and send to the Welsh Ministers (see section 38).

60. If the proposed change is to a form of executive arrangements which involves an elected mayor, the proposals must include provision for a referendum of local government electors in the authority concerned to approve the proposed change, but a referendum must not be held if the change is to any other form of executive arrangements (section 40). A requirement to hold a referendum is subject to the constraint in section 45 of the 2000 Act that a referendum on executive arrangements may not be held more than once in any five years. The timetables for implementing an agreed change are set out in sections 41 and 42. If an authority approves a change which does not require approval in a referendum it must publicise the proposed change as set out in section 43.

61. If a referendum must be held and the change is rejected by voters, the authority may not implement the change (section 44). It must follow the procedure in section 45 and continue to operate its existing executive arrangements.

**Section 46 – Changes of executive arrangements requiring approval in a referendum**

62. This section provides that a change of executive arrangements requires approval in a referendum if either the existing model or the proposed model is a mayor and cabinet executive.

**Section 47 – Interpretation**

63. This section defines certain terms used in this Chapter of the Measure.

**Adran 48 – Y pŵer i amrywio'r ffurf bresennol ar weithrediaeth**

**Adran 49 – Y cynigion ar gyfer amrywio'r ffurf ar weithrediaeth**

**Adran 50 – Cynnwys y cynigion**

**Adran 51 – Rhoi'r cynigion ar waith**

**Adran 52 – Y pwerau sy'n caniatáu amrywio pwerau gweithrediaeth**

64. Mae'r adrannau hyn yn cyflwyno darpariaeth newydd i alluogi awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth i amrywio'r trefniadau fel eu bod yn wahanol i'r trefniadau presennol ond yn dal i weithredu â'r un model.

**Adran 53 – Ffurfiâu ar weithrediaeth**

65. Mae'n egluro mai at ddibenion y Rhan hon y mae dwy ffurf ar weithrediaeth yng Nghymru.

**Adran 54 – Darpariaeth ganlyniadol etc**

66. Mae'r adran hon yn cynnwys diwygiadau canlyniadol i adrannau o Ddeddf 2000 sy'n ymwneud â'r Rhan hon o'r Mesur. Mae Adran 30 o Ddeddf 2000 yn nodi'r gweithdrefnau presennol ar gyfer newid trefniadau gweithrediaeth, sydd wedi eu disodli gan y darpariaethau yn y Rhan hon ynghylch newid trefniadau gweithrediaeth a'u hamrywio. Diben mewnosod yr adran 33ZA newydd yw cyfeirio darllenwyr at y darpariaethau ar gyfer newid trefniadau llywodraethu yng Nghymru yn y rhan hon o'r Mesur. Mae'r diwygiad i adran 45 o Ddeddf 2000 yn ehangu'r diffiniad o refferendwm i gynnwys y darpariaethau a fewnosodir gan y Mesur hwn.

**Rhan 5 – Swyddogaethau Awdurdod Lleol: Cyflawni gan Bwyllgorau a Chynghorwyr**

**Adran 55 – Yr ardal a gwmpesir ac aelodaeth**

**Adran 56 – Arfer swyddogaethau gan gynghorwyr**

**Adran 57 – Darpariaeth ganlyniadol**

67. Mae'r adrannau hyn yn galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i gael mwy o hyblygrwydd o ran y ffordd y caniateir i swyddogaethau gweithrediaeth yr awdurdod hwnnw gael eu cyflawni. Mae adran 15 o Ddeddf 2000 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â chyflawni swyddogaethau ar gyfer gweithrediaeth arweinydd a chabinet yng Nghymru. Mae adran 15(2) o Ddeddf 2000 yn darparu y caniateir i unrhyw swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb y weithrediaeth gael eu cyflawni gan (a) y weithrediaeth, (b) unrhyw aelod o'r weithrediaeth, (c) unrhyw bwyllgor i'r weithrediaeth a (d) unrhyw swyddogion i'r awdurdod.
68. Mae adran 55 o'r Mesur yn diwygio'r ddarpariaeth bresennol yn adran 18 o Ddeddf 2000 i roi i awdurdodau fwy o hyblygrwydd ynghylch aelodaeth o bwyllgor ardal sy'n cyflawni swyddogaethau penodedig yn ei ran ef o ardal yr awdurdod. Ar hyn o bryd, mae pwyllgor ardal yn bodloni'r amodau os yw'r aelodau o'r pwyllgor sy'n gynghorwyr wedi eu hethol ar gyfer adrannau etholiadol sy'n dod yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y rhan honno. Yn ôl yr amodau presennol ar gyfer ardal, rhaid i'r ardal a gwmpesir gan y pwyllgor ardal beidio â bod yn fwy na dwy ran o bump o ardal gyfan yr awdurdod a phoblogaeth y rhan honno yn yr un modd.

**Section 48 – Power to vary the existing form of executive**

**Section 49 – Proposals for varying the form of executive**

**Section 50 – Contents of proposals**

**Section 51 – Implementing proposals**

**Section 52 – Powers under which executive arrangements may be varied**

64. These sections introduce new provision to enable a local authority which is operating executive arrangements to vary the arrangements (so that these differ from the existing arrangements) but still operate with the same model.

**Section 53 – Forms of executive**

65. Clarifies that for the purposes of this Part there are two forms of executive in Wales.

**Section 54 – Consequential provision etc**

66. This section contains consequential amendments of sections of the 2000 Act relating to this Part of the Measure. Section 30 of the 2000 Act sets out the existing procedures for changing executive arrangements, which are superseded by the provisions in this Part about changing executive arrangements and varying them. The insertion of the new section 33ZA serves to direct readers to the provisions for changing governance arrangements in Wales to this part of the Measure. The amendment to section 45 of the 2000 Act expands the definition of referendum to accommodate the provisions inserted by this Measure.

**Part 5 – Local Authority functions: Discharge by Committees and Councillors**

**Section 55 – Area covered and membership**

**Section 56 – Exercise of functions by councillors**

**Section 57 – Consequential provision**

67. These sections enable local authorities in Wales to have more flexibility in the way that functions of the executive of that authority may be discharged. Section 15 of the 2000 Act makes provision for the discharge of functions for a leader and cabinet executive in Wales. Section 15(2) of the 2000 Act provides that any functions which are the responsibility of the executive may be discharged by (a) the executive, (b) any member of the executive, (c) any committee of the executive and (d) any officers of the authority.
68. Section 55 of the Measure amends the existing provision in section 18 of the 2000 Act to give authorities more flexibility about the membership of an area committee which discharges specified functions in its part of the area of the authority. Currently, an area committee satisfies the conditions if the members of the committee who are councillors are elected for electoral divisions which fall wholly or partly within that part. The existing area conditions are that the area covered by the area committee does not exceed two-fifths of the total area of the authority and the population of that part likewise.

69. Mae adran 56 yn gwneud darpariaeth newydd i alluogi aelod o awdurdod lleol sy'n cynrychioli'r weithrediaeth neu'r awdurdod ar gorff allanol i wneud penderfyniadau mewn perthynas â swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb gweithrediaeth yr awdurdod, ar yr amod bod y weithrediaeth neu'r awdurdod wedi cyflawni'r swyddogaethau hynny'n ffurfiol i'r aelod. Nid oes unrhyw bŵer i ddarparu ar gyfer hynny ar hyn o bryd.
70. Mae adran 57 yn gwneud newidiadau canlyniadol i Ddeddf 1972 a Deddf 2000. Mae'r diwygiadau i Ddeddf 1972 yn darparu bod aelodau sy'n arfer swyddogaethau yn gwneud cofnodion ysgrifenedig o benderfyniadau ac yn eu darparu i'r awdurdod. Mae'r newidiadau i Ddeddf 2000 yn caniatáu i swyddogaethau gweithrediaeth gael eu cyflawni'n unol â'r darpariaethau newydd ynghylch aelodau ac i'r aelodau hynny gael eu galw gerbron pwyllgor trosolwg a chraffu i ateb cwestiynau am y swyddogaethau hynny.

## **Rhan 6 - Trosolwg a Chraffu**

### **Adran 58 - Y cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu**

71. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i weinidogion Cymru ddarparu drwy reoliad y caiff dau brif gyngor neu ragor sefydlu un neu ragor o gyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu (CTChau), a threfnu i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau lunio adroddiadau neu wneud argymhellion i unrhyw un neu rai o'r prif gynghorau sy'n sefydlu'r pwyllgor, ac i weithrediaethau'r cynghorau hynny.
72. Caiff y CTChau lunio adroddiadau a gwneud argymhellion am unrhyw fater, ond nid ynghylch materion trosedd ac anhrefn, y gallai pwyllgor trosedd ac anhrefn lunio adroddiad neu wneud argymhellion amdanynt yn rhinwedd adran 19(1)(b) neu (3)(a) o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006.
73. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth i CTChau gael pwerau sy'n cyfateb i rai pwyllgorau trosolwg a chraffu nad ydynt yn gyd-bwyllgorau, yn y modd a nodir mewn deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes ac fel y darperir ar ei gyfer yn y Mesur hwn.

### **Adran 59 - Craffu ar bersonau dynodedig**

### **Adran 60 - Hysbysu personau dynodedig am adroddiad neu argymhellion**

74. Mae'r adrannau hyn yn cryfhau safle pwyllgorau trosolwg a chraffu (ac yn sgil hynny, safle CTChau) drwy adeiladu ar y pŵer presennol i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion yn adran 21(2)(e) o Ddeddf 2000, fel ei bod yn ofynnol i bwyllgorau graffu a chyflwyno adroddiad ar faterion sy'n ymwneud â "pherson dynodedig" (gweler adran 61). Y prif newidiadau eraill yw pwerau newydd ar gyfer pwyllgor: ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei rhoi (gofyniad y mae'n rhaid cydymffurfio ag ef); i anfon copi o adroddiad neu argymhellion at berson dynodedig; ac i ofyn i'r person hwnnw roi sylw i'r adroddiad neu'r argymhellion.

### **Adran 61 - Personau dynodedig**

75. Mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddynodi drwy orchymyn y personau hynny neu'r categorïau hynny o bersonau ("person dynodedig") y caniateir i bwyllgor trosolwg a chraffu i awdurdod lleol graffu ar eu cyfrifoldebau neu eu swyddogaethau. Effaith yr amodau yn is-adrannau (3) i (5) yw cyfyngu'r pŵer dynodi i bersonau sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau, nwyddau neu

69. Section 56 makes new provision to enable a member of a local authority who represents the executive or the authority on an outside body to be able to make decisions in relation to functions which are the responsibility of the authority's executive, provided that the executive or the authority has formally discharged those functions to the member. There is no power to provide for this at present.
70. Section 57 makes consequential changes to the 1972 Act and the 2000 Act. The amendments to the 1972 Act provide for members exercising functions to make written records of decisions and to provide them to the authority. The changes to the 2000 Act allow for the discharge of executive functions in accordance with the new provisions regarding members and for those members to be called before an overview and scrutiny committee to answer questions about those functions.

## **Part 6 – Overview and Scrutiny**

### **Section 58 – Joint overview and scrutiny committees**

71. This section empowers the Welsh Ministers to provide by regulation that two or more principal councils may set up one or more joint overview and scrutiny committees (JOSC), and arrange for the committee or committees to make reports or recommendations to any of the principal councils setting up the committee, and to the executives of those councils.
72. The JOSCs may make reports and recommendations about any matter, but not about crime and disorder matters, about which a crime and disorder committee could make a report or recommendations by virtue of section 19(1)(b) or (3)(a) of the Police and Justice Act 2006.
73. The regulations may make provision for JOSCs to have equivalent powers to non-joint overview and scrutiny committees, as set out in existing legislation and as provided for in this Measure.

### **Section 59 – Scrutinising designated persons**

#### **Section 60 – Notifying designated persons of report or recommendations**

74. These sections strengthen the position of overview and scrutiny committees (and by extension, JOSCs) by building on the existing power to make reports and recommendations in section 21(2)(e) of the 2000 Act, so that committees are required to scrutinise and report on matters which relate to a “designated person” (see section 61). The other main changes are new powers for a committee: to require information to be given (a requirement that must be complied with); to send a copy of a report or recommendations to a designated person; and to request such a person to have regard to the report or recommendations.

#### **Section 61 – Designated persons**

75. Allows the Welsh Ministers to designate by order those persons or categories of persons (a “designated person”) whose responsibilities or functions may be scrutinised by an overview and scrutiny committee of a local authority. The conditions in subsections (3) to (5) have the effect of limiting the designation to persons providing the public with services, goods or facilities, even if not carried out directly by those persons.



gyfleusterau, hyd yn oed os nad yw'r gwaith darparu hwnnw'n cael ei gyflawni'n uniongyrchol gan y personau hynny.

**Adran 62 – Rhoi sylw i safbwyntiau'r cyhoedd**

76. Mae'n cyflwyno darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i alluogi'r cyhoedd i fynegi eu barn mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n cael ei ystyried gan y pwyllgor.

**Adran 63 – Cyfeirio materion at bwyllgor trosolwg a chraffu etc**

77. Mae'n diwygio adran 21A o Ddeddf 2000 i alluogi cynghorydd prif gyngor yng Nghymru i gyfeirio mater at bwyllgor trosolwg a chraffu sy'n ymwneud â chyflawni unrhyw un neu rai o swyddogaethau'r cyngor neu sy'n effeithio ar y cyfan neu ran o'r ardal etholiadol y mae'r cynghorydd yn ei chynrychioli. Rhaid i'r pwyllgor ystyried y mater ac adrodd yn ôl i'r aelod.

**Adran 64 – Y ddyletswydd i ymateb i bwyllgor trosolwg a chraffu**

78. Mae'n gymhwyso o ran Cymru y ddarpariaeth yn adran 21B o Ddeddf 2000 sy'n nodi'r camau y mae'r rhaid i bwyllgor trosolwg a chraffu eu cymryd i hysbysu'r awdurdod neu'r weithrediaeth am adroddiad y mae wedi ei lunio a'r camau y mae'n rhaid i'r awdurdod neu'r weithrediaeth eu cymryd i ymateb.

**Adran 65 – Darpariaeth ganlyniadol i adrannau 62 a 63**

79. Mae'n estyn y diffiniad o wybodaeth sy'n esempt rhag cael ei chyhoeddi mewn adroddiadau etc pwyllgor trosolwg a chraffu i gynnwys yr hyn sydd wedi ei esemptio o dan adran 186 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006.

**Adran 66 – Y ddarpariaeth mewn rheolau sefydlog ynghylch penodi personau i gadeirio pwyllgorau**

**Adran 67 – Yr adegau pan fo penodiadau i'w gwneud gan bwyllgor**

**Adran 68 – Yr adegau pan fo penodiadau i'w gwneud gan grŵp nad yw'n grŵp gweithrediaeth**

**Adran 69 – Sut y mae penodiadau i'w gwneud mewn achosion eraill**

80. Mae'r adrannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol wneud darpariaeth yn ei reolau sefydlog ar gyfer penodi cadeiryddion i bwyllgorau trosolwg a chraffu'r awdurdod (y "weithdrefn benodi"). Mae'r adrannau'n nodi hefyd pwy fydd yn penodi'r cadeiryddion, penderfyniad sy'n dibynnu ar nifer y grwpiau gwleidyddol sydd â chynrychiolwyr yn yr awdurdod hwnnw a chyfansoddiad gweithrediaeth yr awdurdod. Bydd y pwyllgorau eu hunain yn penodi eu cadeiryddion o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 67; bydd y grŵp gwleidyddol anweithredol yn gwneud hynny os yr amgylchiadau yn adran 68 yw'r amgylchiadau hynny. Mae adran 69 yn cyflwyno'r trefniadau a fydd yn gymwys mewn achosion eraill.



**Section 62 – Taking into account the views of the public**

76. Introduces provision to require local authorities to make arrangements to enable the public to express their views in relation to any matter being considered by the committee.

**Section 63 – Reference of matters to overview and scrutiny committee etc**

77. Amends section 21A of the 2000 Act to enable a councillor of a principal council in Wales to refer a matter to an overview and scrutiny committee which relates to the discharge of any of the functions of the council or which affects all or part of the electoral area which the councillor represents. The committee must consider the matter and report back to the member.

**Section 64 – Duty to respond to overview and scrutiny committee**

78. Applies in relation to Wales the provision in section 21 B of the 2000 Act setting out the steps an overview and scrutiny committee must take to inform the authority or executive of a report it has produced and the steps the authority or executive must take to respond.

**Section 65 – Provision consequential on sections 63 and 64**

79. Extends the definition of information which is exempt from publication in reports etc of overview and scrutiny committee to include that exempted under section 186 of the National Health Service Act 2006.

**Section 66 – Provision in standing orders about appointment of persons to chair committees**

**Section 67 – When appointments to be made by committee**

**Section 68 – When appointments to be made by non-executive group**

**Section 69 – How appointments to be made in other cases**

80. These sections require a local authority to make provision in its standing orders for the appointment of chairs for the authority's overview and scrutiny committees (the appointment procedure"). The sections also set out who will appoint the chairs, a decision which depends on the number of political groups represented on that authority and the composition of the authority's executive. The committees themselves will appoint their chairs in the circumstances described in section 67; the non-executive political group will do so if the circumstances are those in section 68. Section 69 introduces the arrangements to apply in other cases.

**Adran 70 – Y penodiadau sydd i'w gwneud gan grwpiau gwleidyddol**

**Adran 71 – Methiant i wneud penodiadau yn unol ag adran 69**

**Adran 72 – Newidiadau yng nghyfansoddiad gweithrediaeth**

**Adran 73 – Swyddi gwag achlysurol ymhlith cadeiryddion pwyllgor**

**Adran 74 – Yr awdurdod yn penderfynu ar ddarpariaeth benodi**

81. Mae'r adrannau hyn yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer awdurdodau pan na fo adrannau 67 na 68 yn gymwys, sef yn gyffredinol yr awdurdodau hynny y mae eu haelodaeth wedi ei rhannu rhwng nifer o grwpiau gwleidyddol.
82. Nod bras yr adrannau hyn yw'r gofyniad i awdurdodau lleol wneud darpariaeth ar gyfer dyrannu nifer y cadeiryddion pwyllgorau craffu yn gyfrannol, ynghyd â'r amod ychwanegol na chaiff y grŵp (neu'r grwpiau) gwleidyddol sy'n ffurfio gweithrediaeth y cyngor ddyrannu mwy o gadeiryddion craffu i'w grŵp (grwpiau) na'r nifer sy'n gyfrannol i'w gynrychiolaeth (gyfun) yn y cyngor llawn (h.y. yr holl aelodau, p'un a ydynt yn aelodau o grwpiau gwleidyddol ai peidio). Os nad yw'r hawl i gadeiryddion y grŵp (grwpiau) yn y weithrediaeth yn rhif cyfan, mae'r nifer y mae gan y grŵp (grwpiau) hawl i'w gael i'w dalgrynnu i lawr i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r egwyddorion ar gyfer dyrannu cadeiryddion craffu i grwpiau gwleidyddol sy'n ffurfio'r weithrediaeth i'w cael yn is-adran (3) newydd adran 70.
83. Mae gweddill y cadeiryddion craffu i'w dyrannu wedyn i grwpiau gwleidyddol yr wrthblaid, a dyraniad pob grŵp gwrthblaid i fod yn gyfrannol i gryfder y grŵp hwnnw o ran nifer o fewn cyfanswm cyfunol y grwpiau gwrthblaid (is-adran (4) o adran 70). Ni ddylai'r broses o gyfrifo cadeiryddion craffu ar gyfer grwpiau gwrthblaid gymryd i ystyriaeth gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o grwpiau gwleidyddol yn yr awdurdod.
84. Mae adran 71 yn nodi beth sydd i ddigwydd os na chaiff unrhyw gadeiryddion pwyllgor eu penodi'n unol ag adran 70. Ni chaiff grŵp (grwpiau) yr weithrediaeth gael mwy o benodiadau. Caiff y grŵp (grwpiau) gwrthblaid sydd wedi llwyr ddefnyddio eu dyraniad cychwynnol o benodiadau gael penodiadau ychwanegol yn gyfrannol i nifer eu penodiadau cychwynnol. Os yw pob un o'r grwpiau gwrthblaid wedi methu â llwyr ddefnyddio ei ddyraniad cychwynnol o benodiadau neu os oes gan grŵp gwrthblaid hawl i benodiad ychwanegol ond nad yw'n ei ddefnyddio, bydd y pŵer penodi yn yr achosion hyn yn dod i ran y pwyllgorau.
85. Os bydd cyfansoddiad y weithrediaeth yn newid, rhaid ailedrych ar ddyraniad y cadeiryddion craffu ac efallai y bydd angen gwneud newidiadau i'r dyraniadau, fel a nodir yn adran 72. Mae'r weithdrefn ar gyfer sefyllfa pan fo swydd cadeirydd craffu yn dod yn wag wedi ei nodi yn adran 73.
86. Mae adran 74 yn caniatáu i awdurdod lleol hepgor y gofyniad i ddilyn y gweithdrefnau uchod os cytunir ar weithdrefn benodi amgen gan bob grŵp gwleidyddol, ar yr amod na fydd y weithdrefn amgen yn arwain at y canlyniad bod y blaid fwyafrifol yn dyrannu nifer mwy o gadeiryddion craffu o'u plaid hwy na'r hyn a fyddai gweithdrefn 70 yn ei ganiatáu.

**Section 70 – Appointments to be made by political groups**

**Section 71 – Failure to make appointments in accordance with section 70**

**Section 72 – Changes in composition of executive**

**Section 73 – Occasional vacancies in committee chairs**

**Section 74 – Appointment provision determined by authority**

81. These sections set out the procedures for authorities where sections 67 or 68 do not apply, which in general will be those authorities where the membership is divided among several political groups.
82. The broad aim of these sections is the requirement for local authorities to make provision for the allocation of scrutiny committee chairs on a proportionate basis, with the additional proviso that the political group (or groups) which comprises the executive of the council cannot allocate a greater number of scrutiny chairs to its group(s) than is proportionate to its (combined) representation on the full council (i.e. all members, whether or not they are members of political groups). If the entitlement to chairs of the group(s) in the executive is not a whole number, the entitlement is to be rounded down to the nearest whole number. The principles for allocating scrutiny chairs to political groups comprising the executive are in the new subsection (3) of section 70.
83. The remaining scrutiny chairs are then to be allocated to opposition political groups, each opposition group's allocation being in proportion to that group's numerical strength within the combined total of opposition groups (subsection (4) of section 70). The calculation of scrutiny chairs for opposition groups should not take any account of councillors who are not members of political groups on the authority.
84. Section 71 sets out what is to happen if any committee chairs are not appointed in accordance with section 70. The executive group(s) cannot get more appointments. The opposition groups that have fully used their initial appointment allocation get additional appointments in proportion to their initial appointments. If all of the opposition groups have failed to fully use their initial appointment allocation or if an opposition group is entitled to an additional appointment, but does not use it, the power of appointment in these cases falls to the committees.
85. If the composition of the executive changes, the allocation of the scrutiny chairs must be re-visited and changes may need to be made to the allocations, as set out in section 72. The procedure if a scrutiny chair falls vacant is set out in section 73.
86. Section 74 permits a local authority to waive the requirement to follow the procedures above if an alternative appointment procedure is agreed by all political groups, with the proviso that the alternative procedure does not result in the majority party allocating a greater number of scrutiny chairs from its party than the section 70 procedure would permit.

**Adran 75 – Darpariaeth atodol a dehongli**

87. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn benodi ar gyfer dyrannu cadeiryddion pwyllgorau craffu ac i ddyroddi canllawiau neu gyfarwyddiadau. Mae'r adran hefyd yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn adrannau 66 i 75 ac yn mewnosod is-adran (10A) newydd yn adran 21 o Ddeddf 2000 i gyfeirio darllenwyr at adrannau 66 i 75 o'r Mesur.

**Adran 76 – Canllawiau a chyfarwyddiadau ynghylch cyfethol**

88. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau neu gyfarwyddyd ynghylch cyfethol a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

**Adran 77 – Blaengynlluniau a gwybodaeth arall am benderfyniadau**

89. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i gyhoeddi blaengynlluniau pwyllgorau ac is-bwyllgorau trosolwg a chraffu.

**Adran 78 – Gwahardd pleidleisio o dan gyfarwyddyd chwip plaid a datgan cyfarwyddyd gwaharddedig chwip plaid**

90. Mae'n gwahardd defnyddio chwip mewn cyfarfodydd pwyllgorau trosolwg a chraffu. Mae'r adran yn nodi gweithdrefn ar gyfer datgan, penderfynu a chofnodi chwip plaid gwaharddedig mewn cyfarfodydd pwyllgor craffu a chanlyniadau rhoi chwip plaid gwaharddedig

**Adran 79 – Canllawiau a chyfarwyddiadau**

91. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau neu roi cyfarwyddiadau ynghylch pwyllgorau trosolwg a chraffu.

**Adran 80 – Dehongli'r Bennod hon**

92. Mae'r adran hon yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn y Bennod hon.

**Adran 81 – Awdurdodau lleol i benodi pwyllgorau archwilio**

**Adran 82 – Aelodaeth**

**Adran 83 – Trafodion etc**

**Adran 84 – Cyfarfodydd: pa mor aml i'w cynnal**

**Adran 85 – Canllawiau**

**Adran 86 – Terfynu aelodaeth aelod pan fydd yn peidio â bod yn aelod o awdurdod**

**Adran 87 – Dehongli etc**

93. Mae'r adrannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol benodi pwyllgor archwilio i adolygu materion ariannol yr awdurdod a'r swyddogaethau eraill a nodir yn adran 81, gan gynnwys llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â'r rhain, a chraffu ar y materion a'r swyddogaethau hynny. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ofyniad statudol i awdurdodau lleol yng Nghymru gael pwyllgor o'r fath.

**Section 75 – Supplementary provision and interpretation**

87. Enables the Welsh Ministers to make regulations about the appointment procedure for allocating scrutiny committee chairs and to issue guidance or directions. The section also defines certain terms used in sections 66 to 75 and inserts new subsection (10A) in section 21 of the 2000 Act to refer readers to sections 66 to 75 of the Measure.

**Section 76 – Guidance and directions about co-option**

88. This section requires a local authority to have regard to any guidance or direction about co-option issued by the Welsh Ministers.

**Section 77 – Forward plans and other information**

89. Enables the Welsh Ministers by regulations to make provision to require the publication of forward plans of overview and scrutiny committees and sub-committees.

**Section 78 – Prohibition of whipped votes & declaration of party whips**

90. Prohibits the application of whipping at meetings of overview and scrutiny committees. The section sets out a procedure for declaring, determining and recording a prohibited party whip at scrutiny committee meetings and the consequences of a prohibited party whip being given.

**Section 79 - Guidance and directions**

91. Enables the Welsh Ministers to issue guidance or give directions about overview and scrutiny committees.

**Section 80 – Interpretation of this Chapter**

92. This section defines certain terms used in this Chapter.

**Section 81 – Local authorities to appoint audit committees**

**Section 82 – Membership**

**Section 83 – Proceedings etc**

**Section 84 – Frequency of meetings**

**Section 85 - Guidance**

**Section 86 – Termination of membership on ceasing to be member of authority**

**Section 87 – Interpretation etc**

93. These sections require a local authority to appoint an audit committee to review and scrutinise the authority's financial affairs and the other functions set out in section 81, including the making of reports and recommendations in relation to these. There is currently no statutory requirement upon local authorities in Wales to have such a committee.



94. Rhaid i gadeirydd y pwyllgor archwilio beidio â bod yn aelod o grŵp sy'n rhan o weithrediaeth y cyngor, ac eithrio pan fo pob grŵp wedi ei gynrychioli ar y weithrediaeth (ac yn yr achos hwnnw rhaid i'r cadeirydd beidio â bod yn aelod o'r weithrediaeth).
95. Mae'r adrannau yn gwneud darpariaeth ar gyfer swyddogaethau, aelodaeth, cadeirydd, trafodion, pa mor aml i gynnal cyfarfodydd, cyflawni swyddogaethau a therfynu aelodaeth. Mae adran 85 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau am swyddogaethau ac aelodaeth pwyllgorau archwilio a'r rheini'n ganllawiau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a phwyllgorau archwilio roi sylw iddynt. Mae adran 87 yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn y Bennod hon.

### **Rhan 7 -Cymunedau a Chynghorau cymuned**

96. Mae'r adrannau ym Mhenodau 1 a 2 o Ran 7 o'r Mesur yn adolygu'r trefniadau a nodir yn Neddf 1972 i alw a threfnu cyfarfodydd cymunedol a phleidleisio cymunedol yng Nghymru i'w gwneud yn fwy cynrychioliadol o'r farn leol.

### **Adran 88 - Cynnull cyfarfodydd cymunedol gan etholwyr llywodraeth leol**

97. Mae adran 88 yn diwygio'r ddarpariaeth bresennol ym mharagraff 30 o Atodlen 12 i Ddeddf 1972 i gynnull cyfarfodydd cymunedol.
98. Mae is-adran (1) o'r adran newydd 88 yn ailddeddfu'r darpariaethau presennol ym mharagraff 30(1) o Atodlen 12 i'r graddau y maent yn caniatáu, mewn cymunedau a chanddynt gyngor cymuned, i gyfarfod cymunedol gael ei gynnull gan gadeirydd y cyngor neu gan ddau gynghorydd sy'n cynrychioli'r gymuned ar y cyngor. Mae'r sbardunau hyn dros gynnull cyfarfod cymunedol heb eu newid. Effaith is-adranau 1(b) - (e) yw, pan fo cyfarfodydd cymunedol yn cael eu cynnull yn y ffordd hon, bod y gofynion presennol i roi hysbysiad cyhoeddus yn cael eu hailgymhwyso. Yn unol â hynny, os mater cyffredinol yw busnes y cyfarfod cymunedol, rhaid rhoi hysbysiad o saith niwrnod o leiaf; os y mater gerbron yw bodolaeth cyngor cymunedol neu grwpio cymuned â chymunedau eraill (h.y. yn unol ag adrannau 27A-27L o Ddeddf 1972 fel y'u mewnosodir gan y Mesur) rhaid rhoi hysbysiad o ddeng niwrnod ar hugain o leiaf.
99. Ar ben hynny, mae'r diwygiad i baragraff 30(1) o Atodlen 12 yn dileu'r darpariaethau presennol sy'n caniatáu i gyfarfod cymunedol gael ei gynnull gan chwe etholwr llywodraeth leol (p'un a oes gan y gymuned o dan sylw gyngor cymuned ai peidio). Mae is-adran (2) o'r adran 88 newydd yn cyflwyno trothwyon newydd, sef 10% o etholwyr llywodraeth leol y gymuned honno neu 50 o etholwyr, p'un bynnag o'r ddau sydd isaf.

### **Adran 89 - Hysbysiad am gyfarfod cymunedol a gafodd ei gynnull gan etholwyr llywodraeth leol**

100. Mae'n mewnosod paragraff 30B newydd yn Atodlen 12 i Ddeddf 1972 sy'n rhoi'r wybodaeth y mae'n ofynnol i'w darparu i alluogi'r cyngor lleol perthnasol i benderfynu a gafodd cyfarfod cymunedol ei gynnull yn briodol pan fo cynullwyr y cyfarfod yn etholwyr llywodraeth leol. Cyngor cymuned mewn cymunedau lle y mae cyngor cymuned yn bod a'r prif gyngor lle nad oes un yn bod yw'r cyngor lleol perthnasol y mae'n rhaid rhoi hysbysiad am gyfarfod cymunedol iddo.



94. The chair of the audit committee must not be a member of a group which forms part of the council's executive, except where all groups are represented on the executive (in which case the chair must not be a member of the executive).
95. The sections make provision for the audit committee's membership, chair, proceedings, frequency of meetings, discharge of functions and termination of membership. Section 85 allows the Welsh Ministers to issue guidance about the functions and membership of audit committees, to which local authorities and audit committees must have regard. Section 87 defines certain terms used in this Chapter.

### **Part 7 – Communities and Community councils**

96. The sections in Chapters 1 and 2 of Part 7 of the Measure revise the arrangements set out in the 1972 Act for the calling and organisation of community meetings and community polls in Wales to make them more representative of local opinion.

### **Section 88 - Convening of community meetings by local government electors**

97. Section 88 amends the existing provision in paragraph 30 of Schedule 12 to the 1972 Act for convening community meetings.
98. Subsection (1) of the new section 88 re-enacts the existing provisions in paragraph 30(1) of Schedule 12 insofar that in communities which have a community council, a community meeting may be convened by the chair of the council or by two councillors representing the community on the council. These triggers for convening a community meeting are unchanged. The effect of subsections 1(b)–(e) is that where community meetings are convened in this way, the existing requirements for giving public notice are re-applied. Accordingly, if the business of the community meeting is a general issue, at least seven days notice must be given; if the business concerns the existence of a community council or the grouping of a community with other communities (i.e. pursuant to sections 27A-27L of the 1972 Act as inserted by the Measure) at least thirty days notice must be given.
99. The amendment to paragraph 30(1) of Schedule 12 also removes the existing provisions whereby a community meeting may be convened by six local government electors (whether or not the community in question has a community council). Subsection (2) of the new section 88 introduces new thresholds, namely 10% of the local government electors for that community or 50 of the electors, whichever is the lower.

### **Section 89 – Notice of community meeting convened by local government electors**

100. Inserts a new paragraph 30B in Schedule 12 to the 1972 Act which sets out the information required to be provided to enable the relevant local council to decide whether a community meeting has been duly convened when the convenors of the meeting are local government electors. The relevant local council, to which the notice of a community meeting must be given, is a community council in communities where one exists and the principal council where one does not.

101. Nodir yr wybodaeth y mae'n ofynnol i'w chynnwys mewn hysbysiad yn is-adrannau (2) - (7). Mae'r darpariaethau yn caniatáu i'r hysbysiad gael ei roi ar ffurf electronig i brif gyngor (ar yr amod ei fod yn bodloni'r gofynion technegol a osodir gan y prif gyngor o dan adran 90) ac i'r etholwyr sy'n cefnogi cynnull cyfarfod cymunedol i aros yn ddiennw os cofrestrwyd hwy yn ddiennw ar y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol.

### **Mae adran 90 – Y cyfleuster ar gyfer darparu hysbysiadau electronig am gynnull cyfarfodydd cymunedol**

102. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor roi cyfleusterau ar gael er mwyn dosbarthu hysbysiadau am gyfarfodydd cymunedol yn electronig. Ar ben hynny, mae'n ofynnol i'r cyngor osod y gofynion ar gyfer cynllun hysbysiadau electronig, fel dilysu llofnod electronig, a rhoi cyhoeddusrwydd priodol i'r gofynion hynny.

### **Adran 91 – Camau gweithredu ar ôl cael hysbysiad am gynnull gyfarfod cymunedol**

103. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor sy'n cael yr hysbysiad y manylir arno yn adran 89 ystyried p'un a fodlonwyd y gofynion gosodedig a'r trothwy sbardun cychwynnol ai peidio. Os yw'r cyngor o'r farn iddynt gael eu bodloni, rhaid i'r cyngor rhoi hysbysiad cyhoeddus yn unol â'r adran newydd 92. Os yw'r cyngor o'r farn na fodlonwyd y gofynion, rhaid iddo roi hysbysiad i'r cynullwyr a datgan pam y mae o'r farn honno.

### **Adran 92 – Hysbysiad cyhoeddus am gyfarfod cymunedol**

104. Mae'n ei gwneud yn ofynnol, cyn pen deng niwrnod ar hugain ar ôl penderfynu bod y gofynion i gynnull cyfarfod cymunedol wedi eu bodloni, i'r cyngor perthnasol roi hysbysiad cyhoeddus y cynhelir y cyfarfod cymunedol.
105. Os mater cyffredinol yw busnes y cyfarfod cymunedol, rhaid rhoi hysbysiad o saith niwrnod o leiaf; os y mater gerbron yw bodolaeth cyngor cymunedol neu grwpio cymuned â chymunedau eraill (h.y. yn unol ag adrannau 27A-27L o Ddeddf 1972 fel y'u mewnosodir gan y Mesur), rhaid rhoi hysbysiad o ddeng niwrnod ar hugain o leiaf. Mae'r adran hefyd yn pennu manylion y mae'n ofynnol eu cynnwys yn yr hysbysiad a sut y dylid cyhoeddi'r hysbysiad.

### **Adran 93 – Galw am bleidleisio cymunedol**

106. Mae'r adran hon yn rhoi yn lle paragraff 34(4) o Atodlen 12 i Ddeddf 1972 ddarpariaeth sy'n codi'r trothwyon sy'n ofynnol er mwyn i gyfarfod cymunedol fynnu pleidleisio cymunedol. Mae'r trothwyon presennol yn ei gwneud yn ofynnol bod galw am bleidleisio yn cael ei gefnogi gan ddim llai na deg neu draean o'r etholwyr llywodraeth leol sy'n bresennol yn y cyfarfod cymunedol, p'un bynnag yw'r isaf. Yn eu lle, rhoddir mwyafrif o'r etholwyr llywodraeth leol sy'n bresennol, a'r mwyafrif hwnnw yn ffurfio 10% o'r etholwyr llywodraeth leol ar gyfer y gymuned honno neu 150 o'r etholwyr, p'un bynnag yw'r lleiaf.

### **Adran 94 – Hysbysiad sydd i'w roi gan y swyddog canlyniadau ar ôl cymryd pleidlais o ganlyniad i gyfarfod cymunedol**

107. Mae'n cyflwyno darpariaeth newydd sy'n gosod y weithdrefn hysbysu yn sgil pleidleisio cymunedol a sbardunwyd gan gyfarfod cymunedol a phan oedd mwyafrif o etholwyr oedd yn pleidleisio o blaid y cwestiwn a osodwyd. Nid oes

101. The information required to support a notice is set out in subsections (2)-(7). The provisions allow for the notice to be given in electronic form to a principal council (provided it meets technical requirements set by the principal council under section 90) and for the supporting electors to retain anonymity if they are registered anonymously in the register of local government electors.

### **Section 90 – Facility for the provision of electronic notices of the convening of community meetings**

102. Requires a principal council to make available facilities so that notices for community meetings may be delivered electronically. The council is also required to set, and appropriately publicise, the requirements for electronic notices scheme, such as the authentication of an electronic signature.

### **Section 91 – Action following receipt of notice of a community meeting**

103. Requires the recipient council of the notice detailed in section 89 to consider whether the stipulated requirements and initial trigger threshold have been met. If the council considers they have, then the council must give public notice in accordance with the new section 92. If the council considers that the requirements have not been met, it must give notice to the convenors and state why it is of that opinion.

### **Section 92 – Public notice of community meeting**

104. Requires that within thirty days of deciding that the requirements for convening a community meeting have been met, the relevant council must give public notice that the community meeting will be held.
105. If the business of the community meeting is a general issue, at least seven days notice of the meeting must be given; if the business concerns the existence of a community council or the grouping of a community with other communities at least thirty days notice of the meeting must be given (i.e. pursuant to sections 27A-27L of the 1972 Act as inserted by the Measure). The section also specifies details which are required to be included in the notice and how the notice should be published.

### **Section 93 – Demands for community polls**

106. This section substitutes paragraph 34(4) of Schedule 12 to the 1972 Act with a provision which raises the thresholds required for a community meeting to demand a community poll. The existing thresholds require a demand for a poll to be supported by no less than ten or one-third of the local government electors present at the community meeting, whichever is the lower. This is replaced with a majority of the local government electors present, the said majority constituting 10% of the local government electorate for that community or 150 of the electors, whichever is the less.

### **Section 94 - Notice to be given by returning officer following taking of a poll consequent on a community meeting**

107. Introduces a new provision which sets out the notice procedure following a community poll which was triggered by a community meeting and where a majority of electors voting were in favour of the question posed. The notice requirements need not be applied if the poll were on a question of a type which would be inappropriate for the council to respond to and that type had been specified in

rhaidd cymhwyso'r gofynion hysbysu os oedd y pleidleisio ar gwestiwn o fath y byddai'n amhriodol i'r cyngor ymateb iddo a bod y math hwnnw wedi ei bennu mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru (yr is-baragraff 38A(2) newydd o Atodlen 12 i Ddeddf 1972).

#### **Adran 95 – Penderfyniad swyddog monitro o ran y cyngor y mae'r pleidleisio'n ymwneud â'i swyddogaethau**

108. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog monitro y rhoddwyd canlyniad y pleidleisio cymunedol iddo benderfynu, cyn pen 14 o ddiwrnodau ar ôl cael hysbysiad, y cyngor y mae cwestiwn y pleidleisio yn ymwneud â'i swyddogaethau. Yna, rhaid i'r swyddog monitro roi hysbysiad, fel y'i nodir yn y paragraff newydd, i'r cyngor perthnasol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

#### **Adran 96 – Ystyried canlyniad pleidleisio cymunedol gan gyngor cymuned**

109. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyngor cymuned ystyried canlyniadau pleidleisio, yn dilyn hysbysiad o dan baragraff 38B newydd o Atodlen 12 i Ddeddf 1972, mewn cyfarfod o'r cyngor.

#### **Adran 97 – Y camau gweithredu sydd i'w cymryd yn dilyn ystyriaeth gan gyngor cymuned o ganlyniadau pleidleisio cymunedol penodol**

110. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor cymuned hysbysu cynullwyr y cyfarfod cymunedol a sbardunodd y pleidleisio am ba gamau gweithredu (os o gwbl) y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r pleidleisio. Mae is-baragraff 1(a) o baragraff 29A newydd o Atodlen 12 i Ddeddf 1972 yn ei gwneud yn glir nad oes disgwyliad cyfreithiol y bydd y cyngor cymuned yn cymryd unrhyw gamau gweithredu mewn ymateb i'r pleidleisio. Dim ond pan fo'r pleidleisio cymunedol wedi ei sbarduno mewn cyfarfod cymunedol o etholwyr llywodraeth leol y mae angen cymryd y camau gweithredu hyn.

#### **Adran 98 – Prif gyngor yn ystyried canlyniad pleidleisio cymunedol**

111. Mae'n cyflwyno adran 33B newydd i Ddeddf 1972 sy'n ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor, sydd wedi cael hysbysiad o dan baragraff 38B newydd, ystyried canlyniad y pleidleisio cymunedol a phenderfynu pa gamau gweithredu y bydd yn eu cymryd. Mae'n ofynnol i'r cyngor, cyn pen dau fis ar ôl cael hysbysiad, gyflawni o leiaf un o'r camau gweithredu a nodir yn yr is-adran (4) newydd, ond caiff gyflawni mwy nag un.

#### **Adran 99 – Prif gyngor yn egluro'i ymateb i bleidleisio cymunedol**

112. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor roi hysbysiad, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, am y camau gweithredu y mae wedi eu cymryd, ac o bosibl yn bwriadu eu cymryd, mewn ymateb i bleidleisio cymunedol. Mae'r adran hon yn nodi bod pwy all gael hysbysiad o'r fath, a hynny i'w benderfynu yn ôl yr amgylchiadau.

#### **Adran 100 – Diddymu darpariaethau presennol ynghylch sefydlu a diddymu cynghorau cymuned etc.**

113. Mae'n diddymu'r darpariaethau presennol yn adrannau 28 i 29B o Ddeddf 1972 sy'n llywodraethu'r gweithdrefnau i sefydlu a diddymu cynghorau cymuned (gan gynnwys grwpiau o gymunedau), i wneud lle i'r darpariaethau newydd a nodir yn y Mesur hwn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried bod y darpariaethau

regulations by the Welsh Ministers (the new sub-paragraph 38A(2) of Schedule 12 to the 1972 Act).

### **Section 95 - Determination of monitoring officer as to the council to whose functions a poll relates**

108. Requires the monitoring officer to whom the notice of the result of the community poll has been delivered to determine, within 14 days of receiving notice, the council to whose functions the poll question relates. The monitoring officer must then give notice, as set out in the new paragraph 38B, to the relevant council as soon as reasonably practicable.

### **Section 96 – Consideration of result of community poll by community council**

109. Requires a community council to consider the results of a poll, following notification under the new paragraph 38B of Schedule 12 to the 1972 Act, in a meeting of the council.

### **Section 97 – Action to be taken following community council’s consideration of results of certain community polls**

110. Requires the community council to inform the convenors of the community meeting which triggered the poll of what action (if any) the council intends to take in response to the poll. Sub-paragraph 1(a) of the new paragraph 29A of Schedule 12 to the 1972 Act makes clear that there is no legal expectation that the community council will take any action in response to the poll. This action need be taken only where the community poll was triggered at a community meeting of local government electors.

### **Section 98 – Consideration of result of community poll by principal council**

111. Introduces a new section 33B to the 1972 Act which requires a principal council, which has received notice under the new paragraph 38B, to consider the result of the community poll and decide what actions it will take. The council is required, within two months of receiving notice, to perform at least one of the actions set out in the new subsection (4), but may perform more than one.

### **Section 99 – Principal council’s explanation of its response to a community poll**

112. Requires a principal council to give notice, as soon as is reasonably practicable, of the action which it has taken and, possibly intends to take, in response to the community poll. The section sets out the possible recipients of such a notice, to be determined by the circumstances.

### **Section 100 – Repeal of existing provisions about establishment and dissolution of community councils, etc**

113. Repeals the existing provisions in sections 28 to 29B of the 1972 Act governing the procedures for establishing and dissolving community councils (including for groups of communities), to make way for the new provisions set out in this Measure. The Welsh Assembly Government considers that the existing provisions are unnecessarily complex and the development of community councils is hindered by the existing thresholds which apply to some of the procedures for the establishment or dissolution of a community council. The Welsh Assembly Government considers



presennol yn ddianghenraid o gymhleth a bod datblygiad cynghorau cymuned yn cael ei rwystro gan y trothwyon presennol sy'n gymwys i rai o'r gweithdrefnau i sefydlu neu ddiddymu cyngor cymuned. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod y trothwyon presennol i sefydlu cyngor cymuned yn rhy uchel a bod y trothwyon ar gyfer diddymu cyngor cymuned yn rhy isel.

#### **Adran 101 – Pŵer cyfarfod cymunedol i wneud cais am orchymyn i sefydlu cyngor cymuned**

114. Mae'n cyflwyno adran 27A newydd yn Neddf 1972 i osod yr amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caiff cyfarfod cymunedol wneud cais i'r prif gyngor dros ei ardal am orchymyn i sefydlu cyngor cymuned ar gyfer yr ardal. Mae'r is-adrannau (4) -(6) newydd yn ailddeddfu amodau sy'n gymwys o dan y darpariaethau presennol. Mae is-adrannau (2) a (3) newydd yn gostwng y trothwy ar gyfer cyfarfod cymuned sy'n pleidleisio i sefydlu cyngor cymunedol i'w gwneud yn ofynnol i 10% o etholwyr llywodraeth leol y gymuned neu 150 o'r etholwyr (p'un bynnag o'r ddau sydd isaf) fod yn bresennol ac yn pleidleisio yn y cyfarfod. Y trothwy presennol yw 30% o etholwyr llywodraeth leol y gymuned neu 300 o'r etholwyr (p'un bynnag o'r ddau sydd isaf).

#### **Adran 102 – Gorchmynion i sefydlu cynghorau cymuned ar wahân gyfer cymunedau**

115. Mae'n cyflwyno adran 27B newydd yn Neddf 1972 i nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid i brif gyngor eu cymryd pan fydd yn cael cais oddi wrth gyfarfod cymunedol i sefydlu cyngor cymuned ar wahân i ardal y gymuned.

#### **Adran 103 – Pŵer cyfarfod cymunedol i wneud cais am orchymyn i ddiddymu ei gyngor cymuned ar wahân**

116. Mae'n cyflwyno adran 27C newydd yn Neddf 1972 i osod yr amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caiff cyfarfod cymunedol wneud cais i'r prif gyngor dros ei ardal am orchymyn i ddiddymu cyngor cymuned ar gyfer yr ardal sydd eisoes mewn bod. Mae'r is-adrannau (2) - (5) newydd yn ailddeddfu amodau sy'n gymwys o dan y darpariaethau presennol. Mae'r trothwy ar gyfer cyfarfod cymunedol yn pleidleisio i ddiddymu cyngor cymuned yn aros yn 30% o etholwyr llywodraeth leol y gymuned neu'n 300 o'r etholwyr (p'un bynnag o'r ddau sydd isaf) yn bresennol yn ac yn pleidleisio yn y cyfarfod. Mae is-adran (6) newydd yn cyflwyno trothwy newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol bod o leiaf ddau draean o'r rheini sy'n pleidleisio yn y pleidleisio cymunedol yn cefnogi'r cynnig i ddiddymu cyngor cymuned. Ar hyn o bryd, mae angen mwyafrif syml.

#### **Adran 104 – Gorchmynion i ddiddymu cynghorau cymuned ar wahân ar gyfer cymunedau**

117. Mae'n cyflwyno adran 27D newydd yn Neddf 1972 i nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid i brif gyngor eu cymryd pan fydd wedi cael cais oddi wrth gyfarfod cymunedol am orchymyn i ddiddymu cyngor cymuned ar wahân i ardal y gymuned.

that the existing thresholds for establishing a community council are too high and those for dissolving a community council are too low.

### **Section 101 – Power of community meeting to apply for an order establishing a community council**

114. Introduces a new section 27A in the 1972 Act to set out the conditions which must be met before a community meeting may apply to the principal council for its area for an order to establish a community council for the area. The new subsections (4)-(6) re-enact conditions which apply under the existing provisions. The new subsections (2) and (3) lower the threshold for a community meeting voting to establish a community council to require 10% of the local government electors for the community or 150 of the electors (whichever is the lower) to be present and voting at the meeting. The existing threshold is 30% of the local government electors for the community or 300 of the electors (whichever is the lower).

### **Section 102 – Orders establishing separate community councils for communities**

115. Introduces a new section 27B in the 1972 Act to set out the action a principal council must take when it has received an application from a community meeting for an order to establish a separate community council for the area of the community.

### **Section 103 – Power of community meeting to apply for an order dissolving its separate community council**

116. Introduces a new section 27C in the 1972 Act to set out the conditions which must be met before a community meeting may apply to the principal council for its area for an order to dissolve an existing separate community council for the area. The new subsections (2)-(5) re-enact conditions which apply under the existing provisions. The threshold for a community meeting voting to dissolve a community council remains 30% of the local government electors for the community or 300 of the electors (whichever is the lower) to be present and voting at the meeting. A new threshold is introduced by the new subsection (6) which requires that at least two-thirds of those voting in the community poll support the proposal to dissolve a community council. A bare majority is required at present.

### **Section 104 – Orders dissolving separate community councils for communities**

117. Introduces a new section 27D in the 1972 Act to set out the action a principal council must take when it has received an application from a community meeting for an order to dissolve a separate community council for the area of the community.

**Adran 105 – Pŵer cyfarfod cymunedol i wneud cais am orchymyn yn grwpio ei gymuned ynghyd â chymunedau eraill o dan gyngor cymuned cyffredin**

118. Mae'n cyflwyno adran 27E newydd yn Neddf 1972 i osod yr amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caiff cyfarfod cymunedol wneud cais i'r prif gyngor dros ei ardal am orchymyn yn grwpio ei gymuned ynghyd â chymunedau eraill o dan gyngor cymuned cyffredin. Yr un yn y bôn yw'r darpariaethau â'r darpariaethau i sefydlu cyngor cymuned o dan yr adran 27A newydd, gyda'r amod ychwanegol yn is-adran (7) sy'n ei gwneud yn ofynnol i geisiadau gael eu gwneud ar y cyd â'r cymunedau eraill sydd ynghlwm yn y grwpio arfaethedig.

**Adran 106 – Gorchmynion yn grwpio cymuned ynghyd â chymunedau eraill o dan gyngor cymuned cyffredin**

119. Mae'n cyflwyno adran 27F newydd yn Neddf 1972 i nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid i brif gyngor eu cymryd pan fydd wedi cael cais oddi wrth gyfarfod cymunedol am orchymyn i grwpio cyngor cymuned ynghyd â chymunedau eraill o dan gyngor cymuned cyffredin.

**Adran 107 – Pŵer cyfarfod cymunedol i wneud cais am orchymyn yn ychwanegu ei gymuned at grŵp o gymunedau a chanddynt gyngor cyffredin**

120. Mae'n cyflwyno adran 27G newydd yn Neddf 1972 i nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caiff cyfarfod cymunedol wneud cais i'r prif gyngor dros ei ardal am orchymyn yn ychwanegu ei gymuned at grŵp o gymunedau o dan gyngor cymuned cyffredin. Mae'r darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad pob cymuned sydd ynghlwm yn y grwpio newydd arfaethedig gan gymhwysu'r un trothwyon ag a gyflwynir i sefydlu cyngor cymuned o dan yr is-adran 27A newydd.

**Adran 108 – Gorchmynion yn ychwanegu cymuned at grŵp o gymunedau a chanddynt gyngor cyffredin**

121. Mae'n cyflwyno adran 27H newydd yn Neddf 1972 i nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid i brif gyngor eu cymryd pan fydd wedi cael cais oddi wrth gyfarfod cymunedol am orchymyn i ychwanegu cymuned at grŵp o gymunedau a chanddynt gyngor cymuned cyffredin.

**Adran 109 – Pŵer cyngor dros grŵp o gymunedau i wneud cais am orchymyn yn diddymu'r grŵp**

122. Mae'n cyflwyno adran 27I newydd yn Neddf 1972 i nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caiff cyngor dros grŵp o gymunedau wneud cais i'r prif gyngor dros ei ardal am orchymyn yn diddymu'r grŵp. Yr un yn y bôn yw'r darpariaethau â'r darpariaethau i ddiddymu cyngor cymuned ar wahân o dan yr adran 27C newydd, gyda'r gofyniad bod pob cymuned yn y grŵp yn ystyried ac yn pleidleisio ar y cynnig ar wahân.

**Adran 110 – Gorchmynion yn diddymu grŵp o gymunedau**

123. Mae'n cyflwyno adran 27J newydd yn Neddf 1972 i nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid i brif gyngor eu cymryd pan fydd wedi cael cais oddi wrth gyngor ar ran grŵp o gymunedau am orchymyn yn diddymu'r grŵp.

**Section 105 – Power of community meeting to apply for an order grouping its community with other communities under a common community council**

118. Introduces a new section 27E in the 1972 Act to set out the conditions which must be met before a community meeting may apply to the principal council for its area for an order grouping its community with other communities under a common community council. The provisions are essentially the same as those for establishing a community council under the new section 27A, with the additional condition at subsection (7) requiring applications to be made jointly with the other communities involved in the prospective grouping.

**Section 106 – Orders grouping a community with other communities under a common community council**

119. Introduces a new section 27F in the 1972 Act to set out the action a principal council must take when it has received an application from a community meeting for an order to group a community with other communities under a common community council.

**Section 107 – Power of community meeting to apply for an order adding its community to a group of communities with a common council**

120. Introduces a new section 27G in the 1972 Act to set out the conditions which must be met before a community meeting may apply to the principal council for its area for an order adding its community to a group of communities under a common community council. The provisions require the consent of all the communities involved in the prospective new grouping with the same thresholds applying as are introduced for establishing a community council under the new section 27A.

**Section 108 – Orders adding a community to a group of communities with a common council**

121. Introduces a new section 27H in the 1972 Act to set out the action a principal council must take when it has received an application from a community meeting for an order to add a community to a group of communities with a common community council.

**Section 109 – Power of council for a group of communities to apply for an order dissolving the group**

122. Introduces a new section 27I in the 1972 Act to set out the conditions which must be met before a council for a group of communities may apply to the principal council for its area for an order dissolving the group. The provisions are essentially the same as those for dissolving a separate community council under the new section 27C, with each community in the group being required to consider and vote on the proposal separately.

**Section 110 – Orders dissolving a group of communities**

123. Introduces a new section 27J in the 1972 Act to set out the action a principal council must take when it has received an application from a council for a group of communities for an order dissolving the group.

**Adran 111 – Pŵer cyfarfod cymunedol i wneud cais am orchymyn yn gwahanu cymuned oddi wrth grŵp o gymunedau**

124. Mae'n cyflwyno adran 27K newydd yn Neddf 1972 i nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caiff cyfarfod cymunedol wneud cais i'r prif gyngor dros ei ardal am orchymyn yn gwahanu'r gymuned oddi wrth grŵp o gymunedau. Yr un yn y bôn yw'r darpariaethau â'r darpariaethau i ddiddymu cyngor cymuned ar wahân o dan yr adran newydd 27C.

**Adran 112 – Gorchmynion yn gwahanu cymunedau oddi wrth grŵp o gymunedau**

125. Mae'n cyflwyno adran 27L newydd yn Neddf 1972 i nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid i brif gyngor eu cymryd pan fydd wedi cael cais oddi wrth gyfarfod cymunedol am orchymyn i wahanu'r gymuned oddi wrth grŵp o gymunedau sydd eisoes mewn bod.

**Adran 113 – Pŵer Gweinidogion Cymru i newid trothwy pleidleisio mewn cysylltiad â threfniadaeth cyngorau cymuned**

126. Mae'n cyflwyno adran 27M newydd yn Neddf 1972 i alluogi Gweinidogion Cymru drwy orchymyn i newid y trothwyon ar gyfer y gweithdrefnau sefydlu a diddymu amrywiol a gyflwynir gan y Mesur hwn a thrwy hynny eu galluogi i wneud newidiadau yng ngoleuni profiad cymhwyso'r trothwyon newydd.

**Adran 114 – Trefniadaeth cymunedau a'u cyngorau: diwygiadau canlyniadol**

127. Mae'n diwygio'r ddarpariaeth bresennol i adlewyrchu'r ffaith bod amryw o adrannau newydd wedi cael eu rhoi yn lle'r hen rai yn Neddf 1972 gan y darpariaethau newydd priodol yn y Rhan hon o'r Mesur.

**Adran 115 – Darpariaeth drosiannol**

128. Mae'n egluro na fydd y gweithdrefnau newydd a nodir ym Mhennod 2 o'r Mesur hwn yn gymwys os ymgwymerwyd â gweithdrefnau presennol penodol, fel y'u nodir gan is-adrannau (a) a (b) o'r adran hon, cyn i ddarpariaethau yn y Bennod hon gael eu dwyn i rym.

**Adran 116 – Gofyniad am hysbysiad cyhoeddus pan fo seddau gwag aelodau cyngorau cymuned i'w llenwi drwy gyfethol**

129. Mae'n cyflwyno gofyniad, sef pan fo cyngor cymuned yn bwriadu llenwi swydd wag drwy gyfethol, rhaid i'r cyngor roi hysbysiad cyhoeddus o'r cyfle i gyfethol. Arfer da cyffredin yw hysbysebu cyfleoedd i gyfethol yn agored, ond ar hyn o bryd nid oes rheidrwydd i wneud hynny. Diben hyn yw osgoi'r canfyddiad mai 'siopau caeedig' yw cyngorau cymuned a bydd yn codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i grwpiau sydd ar hyn o bryd yn cael eu tangynrychioli chwarae rhan amlycach ynddynt. Rhoddir y gofynion hysbysiad cyhoeddus yn is-adran (5), sy'n cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru osod gofynion eraill ar gyfer yr hysbysiad yng ngoleuni profiad.

**Adran 117 – Canllawiau ynghylch rhoi hysbysiad cyhoeddus am gyfethol**

130. Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i roi canllawiau ynghylch rhoi hysbysiad cyhoeddus am gyfethol a bydd rhaid i gynghorau cymuned a chynghorwyr roi sylw iddynt.



**Section 111 – Power of community meeting to apply for order separating community from a group of communities**

124. Introduces a new section 27K in the 1972 Act to set out the conditions which must be met before a community meeting may apply to the principal council for its area for an order separating the community from a group of communities. The provisions are essentially the same as those for dissolving a separate community council under the new section 27C.

**Section 112 – Orders separating a community from a group of communities**

125. Introduces a new section 27L in the 1972 Act to set out the action a principal council must take when it has received an application from a community meeting for an order separating the community from an existing group of communities.

**Section 113 – Power of Welsh Ministers to alter voting threshold in connection with organisation of community councils**

126. Introduces a new section 27M in the 1972 Act to enable the Welsh Ministers by order to alter the thresholds for the various establishment and dissolution procedures introduced by this Measure, thereby enabling them to make changes in the light of experience of applying the new thresholds.

**Section 114 – Organisation of communities and their councils: consequential amendments**

127. Amends other existing provision to reflect the substitution of various sections in the 1972 Act by the appropriate new provisions introduced in this Part of the Measure.

**Section 115 – Transitional provision**

128. Clarifies that the new procedures set out in Chapter 2 of this Measure will not apply if certain existing procedures, as set out in subsections (a) and (b) of this section, were undertaken before the provisions in this Chapter have been brought into force.

**Section 116 – Requirement of public notice where vacancies in community council membership are to be filled by co-option**

129. Introduces a requirement that where a community council intends filling a vacancy by co-option, the council must give public notice of the co-option opportunity. It is accepted good practice that opportunities for co-option are advertised openly, but there is no requirement at present. This will avoid the perception of community councils being ‘closed shops’ and raise awareness of opportunities for greater participation by under-represented groups. The requirements of the public notice are set out in subsection (5), which includes provision for Welsh Ministers to set other requirements for the notice in the light of experience.

**Section 117 – Guidance about giving public notice of co-option**

130. Empowers the Welsh Ministers to issue guidance about giving public notice about co-option, to which community councils and councillors must have regard.

**Adran 118 – Penodi cynrychiolwyr ieuenctid cymunedol gan gynghorau cymuned**

131. Mae'n galluogi cyngor cymuned i benodi hyd at ddau gynrychiolydd ieuenctid cymunedol i'r cyngor cymuned. Bydd y penodiadau yn rhoi llwyfan i lais pobl ifanc, yn annog cyfathrebu rhwng sectorau gwahanol o gymdeithas ac ennyn mwy o ddiddordeb ymhlith pobl ifanc mewn gwleidyddiaeth a llywodraeth leol.
132. Mae'r meini prawf ar gyfer cynrychiolydd ieuenctid cymunedol wedi eu nodi yn is-adran (2). Mae is-adran (3) yn galluogi'r cyngor cymuned i benderfynu telerau'r penodiad, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â gadael y swydd yn wag.

**Adran 119 – Gofynion hysbysu mewn cysylltiad â phenodi cynrychiolydd ieuenctid**

133. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyngor cymuned, pan fo'n penodi cynrychiolydd ieuenctid, roi hysbysiad cyhoeddus yn gyntaf o'i fwriad i wneud hynny ac yn benodol i'r personau ac yn y dull a roddir yn is-adrannau (4-5). Mae gofynion yr hysbysiad cyhoeddus wedi eu nodi yn is-adran (6). Caiff Gweinidogion Cymru osod gofynion eraill ar yr hysbysiad yng ngoleuni profiad.

**Adran 120 – Canllawiau ynghylch penodi cynrychiolwyr ieuenctid cymunedol**

134. Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau ynghylch penodi cynrychiolwyr ieuenctid cymunedol, a bydd rhaid i gynghorau cymuned roi sylw iddynt.

**Adran 121 – Effaith penodi cynrychiolydd ieuenctid cymunedol**

135. Ni fydd gan y cynrychiolwyr ieuenctid cymunedol unrhyw un o'r hawliau, breintiau na rhwymedigaethau statudol sydd gan gyngor cymuned ar hyn o bryd; ond mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ddarparu i gynrychiolydd ieuenctid cymunedol gael ei drin yn aelod o'r cyngor at ddibenion a bennir yn y rheoliadau.

**Adran 122 – Adroddiadau am gyflawni swyddogaeth prif gyngor o gadw ardaloedd cymunedol o dan adolygiad**

136. Mae'n cyflwyno is-adrannau (2A)-(2D) yn adran 55 o Ddeddf 1972 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor gyhoeddi adroddiad bob 15 mlynedd (a'i anfon i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru – “Comisiwn Cymru”) yn nodi sut y mae wedi cyflawni'r swyddogaeth sydd ganddo ar hyn o bryd o gadw ardaloedd cymunedol o dan adolygiad. Nid oes gan y ddeddfwriaeth bresennol amserlen o'r fath i gyhoeddi adroddiadau ac mae rhai cynghorau heb gyhoeddi adroddiadau.

**Adran 123 – Adroddiadau am gyflawni swyddogaeth prif gyngor o gadw trefniadau etholiadol ar gyfer cymunedau o dan adolygiad**

137. Mae'n cyflwyno is-adrannau newydd (4A)-(4D) yn adran 57 o Ddeddf 1972 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor gyhoeddi adroddiad bob 15 mlynedd (a'i anfon i Gomisiwn Cymru) yn nodi sut y mae wedi cyflawni'r swyddogaeth sydd ganddo ar hyn o bryd o gadw trefniadau etholiadol ar gyfer ardaloedd cymunedol o dan adolygiad. Nid oes gan y ddeddfwriaeth bresennol amserlen o'r fath i gyhoeddi adroddiadau ac mae rhai cynghorau heb gyhoeddi adroddiadau.

### **Section 118 – Appointment of community youth representatives by community councils**

131. Enables a community council to appoint up to two community youth representatives to the community council. The appointments will give a platform for a youth voice, encourage communication between different sectors of society and incite a greater interest in politics and local government by young people.
132. The criteria for a community youth representative are set out in subsection (2). Subsection (3) enables the community council to determine the terms of appointment, including those relating to the vacation of office.

### **Section 119 – Notice requirements in connection with youth representative appointments**

133. Requires that where a community council intends appointing a community youth representative, it must first give public notice of its intention to do so and specifically to the persons and in the manner set out at subsections (4-5). The requirements of the public notice are set out in subsection (6). The Welsh Ministers may set other requirements for the notice in the light of experience.

### **Section 120 – Guidance about appointment of community youth representatives**

134. Empowers the Welsh Ministers to issue guidance about the appointment of community youth representatives, to which community councils must have regard.

### **Section 121 – Effect of appointment as a community youth representative**

135. The community youth representatives will not have any of the statutory rights, privileges and obligations of a community council extended to them at this time; but this section enables the Welsh Ministers, by regulations, to provide for a community youth representative to be treated as a member of the council for purposes specified in the regulations.

### **Section 122 – Reports about discharge of a principal council’s function of keeping community areas under review**

136. Introduces new subsections (2A)-(2D) in section 55 of the 1972 Act to require a principal council to publish every 15 years (and send to the Local Government Boundary Commission for Wales – the “Welsh Commission”) a report of how it has discharged its existing function of keeping community areas under review. The existing legislation has no such timeframe for publishing reports and some councils have not published reports.

### **Section 123 – Reports about discharge of a principal council’s function of keeping electoral arrangements for communities under review**

137. Introduces new subsections (4A)-(4D) in section 57 of the 1972 Act to require a principal council to publish every 15 years (and send to the Welsh Commission) a report of how it has discharged its existing function of keeping electoral arrangements for community areas under review. The existing legislation has no such timeframe for publishing reports and some councils have not published reports.

**Adran 124 – Arfer swyddogaethau gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ar ran prif gynghorau**

138. Mae'n cyflwyno adran 57A newydd yn Neddf 1972 i alluogi Comisiwn Cymru a phrif gyngor i gytuno ar drefniadau sy'n caniatáu i Gomisiwn Cymru arfer swyddogaethau'r prif gyngor o adolygu ardaloedd cymunedol neu drefniadau etholiadol ar gyfer cymunedau ac ystyried ceisiadau a geir oddi wrth gyfarfodydd cymunedol a chynghorau yn y cyswllt hwn.
139. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn galluogi Comisiwn Cymru i ymgymryd â'r swyddogaethau hynny ar hyn o bryd, ond rhaid i Gomisiwn Cymru gael ei gyfarwyddo gan Weinidogion Cymru i wneud hynny yn gyntaf. Ar hyn o bryd cyfrifoldeb Comisiwn Cymru yw talu am gynnal adolygiadau am nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu iddo godi unrhyw ffi ar y prif gyngor o dan sylw. Mae'r ddarpariaeth newydd yn lleihau'r angen am gyfarwyddyd oddi wrth Weinidogion Cymru pan fo prif gyngor a Chomisiwn Cymru wedi dod i gytundeb am y trefniadau ar gyfer yr adolygiad.

**Adran 125 – Y symiau sy'n daladwy mewn cysylltiad ag adolygiadau a gynhaliwyd gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru**

140. Mae'n cyflwyno is-adrannau (4A) - (4C) newydd yn adran 56 o Ddeddf 1972 ar gyfer amgylchiadau pan fo Gweinidogion Cymru wedi gorfod cyfarwyddo Comisiwn Cymru i ymgymryd ag adolygiad ar ran prif gyngor (efallai am fod Comisiwn Cymru a'r cyngor wedi methu â dod i gytundeb am y trefniadau ar gyfer yr adolygiad). Caiff y cyfarwyddyd gynnwys gofyniad ar i'r prif gyngor o dan sylw dalu i Gomisiwn Cymru swm a bennwyd neu swm sydd i'w gyfrifo.

**Adran 126 – Pwerau cynghorau cymuned i hybu llesiant**

141. Mae'n diwygio adran 1(b) o Ddeddf 2000 i gynnwys cynghorau cymuned yn y rhestr o awdurdodau lleol y rhoddir pŵer llesiant iddynt gan adran 2(1) o'r Ddeddf honno.
142. Mae Rhan 1 o Ddeddf 2000 yn darparu pŵer i awdurdodau lleol wneud unrhyw beth sydd yn eu barn hwy yn debygol o sicrhau bod llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardal yn cael ei hybu neu ei wella. O ran Cymru, dim ond i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol y mae'r pŵer hwn wedi ei roi ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y bydd estyn y pŵer llesiant i gynghorau cymuned yn amlhau'r cyfleoedd iddynt ddatblygu eu rôl mewn hybu a gwella llesiant eu hardaloedd.

**Adran 127 – Addasiadau i ddeddfiadau'n atal neu'n rhwystro cyngor cymuned rhag arfer ei bwerau llesiant**

143. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i wneud addasiadau i unrhyw ddeddfiad sydd yn eu barn hwy yn atal neu'n rhwystro cynghorau cymuned rhag arfer eu pŵer o dan adran 2(1) o Ddeddf 2000.

**Adran 128 – Darpariaeth drosiannol**

144. Mae'r ddarpariaeth drosiannol hon i ddelio â sefyllfa pan na fo strategaeth gymunedol yn unol ag adran 39(4) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 wedi ei chyhoeddi eto.

## **Section 124 – Exercise of functions by the Local Government Boundary Commission for Wales on behalf of principal councils**

138. Introduces a new section 57A in the 1972 Act to enable the Welsh Commission and a principal council to agree arrangements by which the Welsh Commission may exercise the principal council's functions of reviewing the community areas or electoral arrangements for communities and considering requests received from community meetings and councils in this respect.
139. The existing legislation enables the Welsh Commission to undertake these functions at present, but the Welsh Commission must first be directed to do so by Welsh Ministers. The cost of undertaking reviews currently falls to the Welsh Commission as the existing legislation does not allow it to charge any fee to the principal council concerned. The new provision alleviates the need for a direction from the Welsh Ministers where a principal council and the Welsh Commission have reached agreement about the arrangements for the review.

## **Section 125 – Sums payable in respect of reviews carried out by the Local Government Boundary Commission for Wales**

140. Introduces new subsections (4A)-(4C) in section 56 of the 1972 Act for circumstances where the Welsh Ministers have had to direct the Welsh Commission to undertake a review on behalf of a principal council (perhaps because the Welsh Commission and the council have failed to reach agreement about the arrangements for the review). The direction may include a requirement on the principal council concerned to pay the Welsh Commission a sum specified or to be calculated.

## **Section 126 – Community councils' powers to promote well-being**

141. Amends section 1(b) of the 2000 Act to include community councils in the list of local authorities on which the power of well-being is conferred by section 2(1) of that Act.
142. Part I of the 2000 Act provides a power for local authorities to do anything that they consider is likely to achieve the promotion or improvement of the economic, social or environmental well-being of their area. In relation to Wales, this power is currently conferred on county councils and county borough councils only. The Assembly Government considers that extending the power of well-being to community councils will enhance the opportunities for them to develop their role in promoting and improving the well-being of their areas.

## **Section 127 – Modifications of enactments preventing or obstructing a community council from exercising their well-being power**

143. Enables the Welsh Ministers by order to make modifications to any enactment which they think prevents or obstructs community councils from exercising their power under section 2(1) of the 2000 Act.

## **Section 128 - Transitional provision**

144. This transitional provision is to deal with the situation where a community strategy pursuant to section 39(4) of the Local Government (Wales) Measure 2009 has not yet been published.



### **Adran 129 – Pŵer Gweinidogion Cymru i dalu grantiau i gynghorau cymuned**

145. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i dalu grantiau i gynghorau cymuned. Mae'n bosibl y bydd rôl ddatblygol cynghorau cymuned yn gosod gofynion newydd ar eu cyllid ond nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud taliadau grant i gynghorau cymuned at unrhyw ddiben.

### **Section 130 - Power to set out model charter agreement**

146. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i osod cytundeb siarter enghreifftiol mewn gorchymyn. Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn annog trefniadau cydlafurio rhwng prif gynghorau a chynghorau cymuned, gan amlaf wedi eu gosod mewn "siarter" y cytunwyd arni, y byddai dwy haen llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd drwy'r siarter mewn dull cilyddol o gefnogi a chydweithredu er budd eu cymunedau. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, yn y lle cyntaf, bod datblygu a mabwysiadu trefniadau / siarteri cydlafurio yn cael eu cyflawni orau ar sail wirfoddol ar lefel leol. Er hynny, ar hyn o bryd nid oes unrhyw bŵer ar gael i Lywodraeth y Cynulliad i'w gwneud yn ofynnol i gynghorau amharod ddod at ei gilydd, mynd i'r afael â materion a chytuno ar siarter er budd eu hardaloedd.

### **Adran 131 – Cyfarwyddiadau sy'n gwneud mabwysiadu cytundebau siarter enghreifftiol yn ofynnol**

147. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddiadau sy'n gwneud mabwysiadu cytundebau siarter enghreifftiol yn ofynnol.

### **Adran 132 – Canllawiau ynghylch cytundebau siarter enghreifftiol**

148. Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau ynghylch cytundebau siarter, y mae'n rhaid i brif gynghorau a chynghorau cymuned sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru roi sylw iddynt.

### **Adran 133 – Ymgynghori**

149. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r cyrff, y personau neu sefydliadau llywodraeth leol a bennir cyn gwneud gorchymyn neu ddyroddi cyfarwyddyd ynghylch cytundebau siarter enghreifftiol.

### **Adran 134 – Cynlluniau ar gyfer achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol**

150. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer achredu cynllun ansawdd ar gyfer cynghorau cymuned.
151. Ar hyn o bryd nid oes cynllun ansawdd ag achrediad cenedlaethol i asesu cymhwysedd cynghorau cymuned yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod gwerth mewn datblygu cynllun o'r fath i helpu i godi safonau llywodraeth leol gan gynghorau cymuned.
152. Bwriad Gweinidogion Cymru yw, yn y lle cyntaf, datblygu cynllun ansawdd ag achrediad cenedlaethol yng Nghymru a'i weithredu ar sail anstatudol. Er hynny, mae Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'n fanteisiol cael pŵer "wrth gefn" i gyflwyno cynllun achredu statudol ar ryw adeg yn y dyfodol pe bai hyn yn cael ei ystyried yn briodol. Mae'r adran hon yn darparu'r pŵer hwn.

**Section 129 – Welsh Ministers’ power to pay grant to community councils**

145. Enables the Welsh Ministers to pay grants to community councils. The developing role of community councils may create new demands on their finances but the current legislation does not enable the Welsh Ministers to make grant payments to community councils for any purposes.

**Section 130 - Power to set out model charter agreement**

146. Enables the Welsh Ministers to set out a model charter agreement in an order. The Assembly Government already encourages collaborative arrangements between principal and community councils, usually set out in an agreed “charter”, through which the two tiers of government would work together in a mutually supportive and co-operative way for the benefit of their communities. The Welsh Ministers consider that, in the first instance, the development and adoption of collaboration arrangements/charters is best achieved on a voluntary basis at the local level. There is, however, no power currently available to the Assembly Government to require reluctant councils to come together, address the issues and agree a charter for the benefit of their areas.

**Section 131- Directions requiring the adoption of model charter agreements**

147. Enables the Welsh Ministers to issue directions requiring the adoption of a model charter.

**Section 132- Guidance about model charter agreements**

148. Empowers the Welsh Ministers to issue guidance about charter agreements, to which principal and community councils acting under a direction of the Welsh Ministers must have regard.

**Section 133 - Consultation**

149. Requires the Welsh Ministers to consult the bodies, persons or local government institutions stipulated before making an order or issuing a direction about model charter agreements.

**Section 134 – Schemes for the accreditation of quality in community government**

150. Enables the Welsh Ministers to make regulations to provide for an accreditation of quality scheme for community councils.
151. There is currently no national accreditation of quality scheme to assess the competence of community councils in Wales. The Welsh Ministers consider that there is value in developing such a scheme to help raise standards of local government by community councils.
152. The intention of the Welsh Ministers is that, in the first instance, a national accreditation of quality scheme in Wales should be developed and operated on a non-statutory basis. However, the Welsh Ministers consider that it would be beneficial to have a “reserve” power to introduce a statutory accreditation scheme should this be considered appropriate at some future point. This section provides this power.

**Adran 135 – Achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: meini prawf**

**Adran 136 – Achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: ceisiadau**

**Adran 137 – Achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: ffioedd**

**Adran 138 – Achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: tynnu achrediad yn ôl**

**Adran 139 – Ceisiadau am achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: dirprwyo swyddogaethau**

**Adran 140 – Achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: canlyniadau**

153. Mae'r darpariaethau hyn yn ategu adran 134. Os bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau ar gyfer cynllun achredu, o ran y rheoliadau:

- rhaid iddynt osod meini prawf i'w bodloni wrth wneud cais am achrediad. Gallai'r rhain ymwneud â'r materion a restrir yn adran 135(2), ond heb fod yn gyfyngedig iddynt;
- rhaid iddynt osod y gofynion ar gyfer cais dilys am achrediad (adran 136);
- caniateir iddynt osod ffioedd ar gyfer cais am achrediad (adran 137);
- rhaid iddynt osod y seiliau dros dynnu'n ôl statws achrediad a gafodd ei ddyfarnu a thros adolygu'r statws achrediad a gafodd ei ddyfarnu (adran 138).

154. Byddai adran 139 yn caniatáu i Weinidogion Cymru drefnu i berson arall (nad oes raid iddo fod yn awdurdod cyhoeddus) weithredu'r cynllun achredu.

155. Mae adran 140 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i dynnu rhwystrau statudol oddi wrth gynghorau cymuned a achredwyd neu i'w newid (er enghraifft, oherwydd eu bod wedi cyflawni safon benodol mewn perfformiad) ac i osod rhwystrau yn ffordd cynghorau cymuned nas achredwyd (er enghraifft, oherwydd nad ydynt yn gallu dangos eu bod wedi cyflawni safon benodol).

## **Rhan 8 – Aelodau: Taliadau a Phensiynau**

156. Mae'r Rhan hon o'r Mesur yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chydabyddiaeth ariannol i gynghorwyr fel bod panel annibynnol yn gyfrifol am benderfynu iawn digonol i gynghorwyr mewn cysylltiad â'r cyfrifoldebau y maent yn eu hysgwyo ac am gynnal system talu cydnabyddiaeth sy'n mynd bob yn gam â'r lliaws o ddatblygiadau yn y blynyddoedd diweddar o ran dyletswyddau arwain, llywodraethu a chraffu a dyletswyddau rheoleiddiol sy'n rheidrwyo ar gynghorydd.

## **Adran 141 – Y Panel**

157. Mae'n darparu bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn parhau i fodoli (y "PAGA").

158. Sefydlwyd y PAGA o dan reoliad 26 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/1086) ("Rheoliadau 2007") i ragnodi, ymhlith pethau eraill, lefelau uchaf y lwfansau a fyddai'n daladwy gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Mae cylch gwaith presennol y PAGA yn ymestyn i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn unig ac nid yw'n cwmpasu cynghorau cymuned, awdurdodau Parciau Cenedlaethol nac awdurdodau tân ac achub.

**Section 135 – Accreditation of quality in community government: criteria**

**Section 136 – Accreditation of quality in community government: applications**

**Section 137 – Accreditation of quality in community government: fees**

**Section 138 – Accreditation of quality in community government: removal of accreditation**

**Section 139 – Applications for accreditation of quality in community government: delegation of functions**

**Section 140 – Accreditation of quality in community government consequences**

153. These provisions support section 134. If the Welsh Ministers make regulations for an accreditation scheme, the regulations:

- must set criteria to be met on an application for accreditation. These may cover the matters listed in section 135(2), but would not be limited to these;
- must set out the requirements for a valid application for accreditation (section 136);
- may set fees for an application for accreditation (section 137);
- must set out the grounds for the removal of accreditation status awarded and for the review of accreditation status awarded (section 138).

154. Section 139 would allow the Welsh Ministers to arrange for another person (which need not be a public authority) to operate the accreditation scheme.

155. Section 140 enables the Welsh Ministers, by regulations, to remove or alter statutory impediments from accredited community councils (for example, because they have achieved a certain standard of performance) and to place impediments in the way of unaccredited community councils (for example, because they are unable to show that they have achieved a certain standard).

**Part 8 – Members: Payment and Pensions**

156. This Part of the Measure makes provision in respect of the remuneration of councillors so that an independent panel has responsibility for determining adequate recompense for councillors in respect of the responsibilities they carry and for maintaining a remuneration system which keeps pace with the many developments in recent years in terms of the leadership, governance, scrutiny and regulatory duties incumbent upon a councillor.

**Section 141 – The Panel**

157. Provides for the continued existence of the Independent Remuneration Panel for Wales (the “IRP”).

158. The IRP was established under regulation 26 of the Local Authorities (Allowances for Members) (Wales) Regulations 2007 (S.I. 2007/1086) (the “2007 Regulations”) to prescribe, amongst other things, the maximum levels of allowances payable by county and county borough councils. The IRP’s current remit only extends to county and county borough councils and does not encompass community councils, National Park authorities or fire and rescue authorities.

159. Mae'r ddarpariaeth newydd yn cadw sail statudol y PAGA ac yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n nodi'r manylion ar gyfer aelodaeth, deiliadaeth a threfniadaeth y PAGA.

### **Atodlen 2 – Y Panel**

160. Fe'i cyflwynwyd gan adran 141. Mae'n nodi'r gweithdrefnau penodi, gweinyddu a chynorthwyo ar gyfer y PAGA (gan gynnwys anghymhwysu rhag bod yn aelod). Mae paragraffau 18-20 yn nodi rhwymedigaethau Gweinidogion Cymru o ran rhoi cymorth i'r PAGA.

### **Adran 142 – Swyddogaethau sy'n ymwneud â thaliadau i aelodau**

161. Mae'n nodi swyddogaethau'r PAGA, ac yn benodol yn rhoi iddo fwy o hyblygrwydd mewn cysylltiad â diffinio'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a all gymhwysu cynghorwyr i gael taliadau, disgrifio'r mathau o daliadau a gosod lefelau taliadau i'r awdurdodau hynny a ddisgrifir yn adran 144. Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn bod yr hyblygrwydd hwn yn angenrheidiol i ganiatáu i'r PAGA ymateb i wahanol amgylchiadau cynghorwyr ac awdurdodau.
162. Bydd y darpariaethau yn galluogi'r PAGA i bennu swm gwirioneddol taliad y caiff awdurdod ei wneud i aelod, gosod lefel uchaf taliad i aelod o'r awdurdod neu gyfyngu ar y gyfran o aelodau'r awdurdod sy'n gallu cael math penodol o daliad. Gallai'r Panel, mewn perthynas ag un neu ragor neu bob un o awdurdodau o ddisgrifiadau gwahanol neu awdurdodau gwahanol o'r un disgrifiad, benderfynu gosod taliadau a allai gynnwys cyfraddau uchaf a chyfraddau gwirioneddol.
163. Mae'r ddarpariaeth yn is-adran (2) yn diffinio'r materion perthnasol y caiff y PAGA benderfynu arnynt o dan is-adran (1). Mae materion perthnasol yn rhai sy'n ymwneud â busnes swyddogol cynghorwyr fel y'i diffinnir yn is-adran (8) ac mae'n cynnwys taliadau i gynghorwyr sy'n arfer hawl i absenoldeb teuluol (fel y darperir ar ei gyfer yn Rhan 2 o'r Mesur hwn).
164. O dan is-adran (4) caiff y PAGA osod mynegrifau a chyfraddau addasu uchaf y caiff awdurdodau eu cymhwysu neu gyfeirio atynt wrth addasu eu cyfraddau talu o flwyddyn i flwyddyn. Caiff y PAGA hefyd benderfynu ar gyfran yr aelodau sy'n gallu cael math penodol o daliad er bod angen cydsyniad Gweinidogion Cymru os yw'r PAGA yn dymuno pennu'r gyfran yn uwch na hanner cant y cant.
165. Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn ofynnol i'r PAGA, wrth osod swm neu gyfradd addasu uchaf neu fynegrif, gymryd i ystyriaeth effaith ariannol debygol ei benderfyniadau ar yr awdurdod o dan sylw.

### **Adran 143 – Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau aelodau**

166. Mae'n galluogi'r Panel i benderfynu pa aelodau etholedig (nid aelodau cyfetholedig) o'r awdurdodau hynny sydd neu a fydd yn dod yn aelodau cymwys o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) y bydd hawl ganddynt i gael pensiynau. Mae cylch gwaith cyfredol y PAGA wedi ei gyfyngu i argymell pa aelodau etholedig o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol a ddylai fod â hawl i gael pensiynau o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.



159. The new provision maintains the statutory basis of the IRP and introduces Schedule 2 which sets out the detail for membership, tenure and organisation of the IRP.

### **Schedule 2 – The Panel**

160. Introduced by section 141. Sets out the appointment, administrative and support procedures for the IRP (including disqualification from membership). Paragraphs 18-20 set out the obligations of the Welsh Ministers in terms of providing support to the IRP.

### **Section 142 – Functions relating to payments to members**

161. Sets out the functions of the IRP, in particular giving it a greater degree of flexibility in respect of defining the duties and responsibilities which may qualify councillors to receive payments, to describe the types of payments and to set levels of payments for those authorities described in section 144. The Assembly Government considers that this flexibility is necessary to allow the IRP to respond to different circumstances of councillors and of authorities.
162. The provisions in this section will enable the IRP to stipulate the actual amount of payment an authority may make to a member, set the maximum level of payment to a member of the authority or limit the proportion of members of the authority who can receive a certain type of payment. The IRP could, in relation to one or more or all authorities of different descriptions or different authorities of the same description decide to set payments which could include maxima and actual rates.
163. The provision in subsection (2) defines the relevant matters which the IRP may decide under subsection (1). Relevant matters are those that relate to the official business of councillors as defined in subsection (8) and includes payments to councillors who are exercising an entitlement to family absence (as provided for in Part 2 of this Measure).
164. Under subsection (4) the IRP can set indices and maximum rates of adjustment which authorities may apply or refer to in adjusting their payment rates from year to year. The IRP can also determine the proportion of members who can receive a certain type of payment although the consent of the Welsh Ministers is needed if the IRP wish to fix the proportion at more than fifty per cent.
165. Subsection (6) requires the IRP, when setting an amount or maximum rate of adjustment or index, to take into account the likely financial impact of its decisions on the authority in question.

### **Section 143 – Functions relating to members’ pensions**

166. Enables the IRP to determine which elected members (not co-opted members) of such authorities as are or become eligible members of the Local Government Pension Scheme (LGPS) shall be entitled to pensions. The current remit of the IRP is limited to recommending which elected members of a county or county borough council should be entitled to pensions under section 18 of the Local Government and Housing Act 1989.

**Adran 144 – Awdurdodau perthnasol, aelodau etc**

167. Mae'n darparu diffiniadau o dermau penodol a ddefnyddir yn y Rhan hon o'r Mesur. Effaith y diffiniad o "awdurdod perthnasol" yn is-adran (2) yw estyn cylch gwaith y PAGA i gwmpasu cyngorau cymuned, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, yn ychwanegol at gyngorau sir a chyngorau bwrdeistref sirol.

**Adran 145 – Adroddiadau blynyddol**

**Adran 146 – Adroddiad blynyddol cyntaf**

**Adran 147 – Adroddiadau blynyddol dilynol**

**Adran 148 – Ymgynghori ar adroddiadau drafft**

168. Mae'r adrannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r PAGA gyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch arfer ei swyddogaethau am bob blwyddyn ariannol sydd ar ddod.
169. Mae adran 146 yn pennu: mai'r flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2012 yw'r flwyddyn ariannol gyntaf y mae'n rhaid i'r PAGA gyhoeddi adroddiad blynyddol arni, yn pennu bod yn rhaid i'r adroddiad gael ei gyhoeddi erbyn 31 Rhagfyr 2011 ac yn pennu gofynion yr adroddiad. Mae'r darpariaethau hefyd yn caniatáu i'r PAGA lunio adroddiadau sy'n atodol i'r adroddiad blynyddol cyntaf. Mae gofynion adroddiadau blynyddol dilynol (ac adroddiadau atodol) yn debyg i'r rhai ar gyfer yr adroddiad blynyddol cyntaf (ac unrhyw adroddiadau sy'n atodol i'r adroddiad cyntaf)(adran 147).
170. Rhaid i'r PAGA ganiatáu cyfnod o wyth wythnos o leiaf ar gyfer ymgynghori ynghylch adroddiad drafft a dodi copi o'r adroddiad drafft ar ei wefan yr un pryd ag y caiff ei ddsbarthu i Weinidogion Cymru etc.

**Adran 149 – Cyfarwyddiadau i amrywio adroddiadau drafft**

171. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r PAGA i ailystyried darpariaeth mewn adroddiad drafft. Rhaid i Weinidogion Cymru nodi eu rhesymau dros ddyroddi'r cyfarwyddyd a rhoi dyddiad ar gyfer ymateb. Nid yw'r PAGA yn gorfod amrywio'r drafft, ond rhaid iddo ymateb ac esbonio os yw'n penderfynu peidio â'i amrywio.

**Adran 150 – Gofynion gweinyddol mewn adroddiadau**

**Adran 151 – Gofynion cyhoeddusrwydd mewn adroddiadau**

172. Mae'n galluogi'r PAGA i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu systemau gweinyddol i osgoi dyblygu hawliadau am daliadau ac i gadw cofnodion mewn perthynas â thaliadau a wneir i'w haelodau, ac i bennu mewn adroddiad blynyddol y trefniadau ar gyfer cyhoeddusrwydd a ddylai gael eu sefydlu gan yr awdurdodau mewn perthynas â'r taliadau a wneir gan awdurdod.

**Adran 152 – Rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiadau**

173. Mae'n nodi'r camau y mae'n rhaid i'r PAGA eu cymryd i roi cyhoeddusrwydd i'w adroddiadau, gan gynnwys adroddiadau drafft.

**Section 144 – Relevant authorities, members etc**

167. Provides definitions of certain terms used in this Part of the Measure. The definition of “relevant authority” in subsection (2) has the effect of extending the remit of the IRP to cover community councils, National Park Authorities and fire and rescue authorities in Wales, in addition to county and county borough councils.

**Section 145 – Annual reports**

**Section 146 – First annual report**

**Section 147 – Subsequent annual reports**

**Section 148 – Consultation on draft reports**

168. These sections require the IRP to publish an annual report about the exercise of its functions for each forthcoming financial year.
169. Section 146 stipulates: that the first financial year for which the IRP must publish an annual report is the year beginning 1 April 2012; that the report must be published by 31 December 2011; and the requirements of the report. The provisions also allow for the IRP to produce supplementary reports to the first annual report. The requirements of subsequent annual reports (and supplementary reports) are similar to those for the first annual report (and any supplementary reports to the first report). (Section 147.)
170. The IRP must allow a minimum period of eight weeks for consultation on a draft report and place a copy of the draft report on its web-site at the same time as it is circulated to the Welsh Ministers, etc.

**Section 149 – Directions to vary reports**

171. Enables the Welsh Ministers to direct the IRP to reconsider a provision of a draft report. The Welsh Ministers must specify their reasons for issuing the direction and give a date for a response. The IRP is not obliged to vary the draft, but must respond and explain if it decides not to vary.

**Section 150 – Administrative requirements in reports**

**Section 151 – Publicity requirements in reports**

172. Enable the IRP to require local authorities to put in place administrative systems to avoid the duplication of claims for payments and to keep records in relation to payments made to their members, and to stipulate in an annual report the publicity arrangements that should be put in place by authorities in relation to the payments made by an authority.

**Section 152 – Publicising reports**

173. Sets out steps the IRP must take to publicise its reports, including draft reports.

### **Adran 153 – Cydymffurfio â gofynion y Panel**

174. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gydymffurfio â phenderfyniadau'r PAGA a nodir mewn adroddiad blynyddol ac yn rhoi pŵer i'r PAGA fonitro'r modd y mae taliadau sy'n cael eu gwneud gan yr awdurdodau y mae ei benderfyniadau yn effeithio arnynt yn cael eu gweithredu a'u rheoli. Mae pŵer wedi ei roi i'r PAGA ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau roi iddo fanylion eu taliadau a'r cyfraddau gwirioneddol a ddefnyddiwyd i dalu. Rhaid i'r awdurdod gydymffurfio â chais o'r fath.

### **Adran 154 – Aelodau sy'n dymuno ymwrthod â'u hawl i gael taliadau**

175. Mae'n galluogi aelod o awdurdod i ildio ei hawl i gael y cyfryw daliadau y bydd yr aelod hwnnw'n penderfynu arnynt. Gan y bydd yn ofynnol i awdurdodau wneud taliadau penodol i aelodau, bernir ei bod yn angenrheidiol gwneud darpariaeth i ganiatáu i awdurdodau beidio â thalu lwfansau mewn amgylchiadau pan fo aelod wedi dethol ymwrthod â'i hawl i gael taliad.

### **Adran 155 – Peidio â gwneud taliadau**

176. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod beidio â gwneud taliadau i bersonau sydd wedi eu hatal (neu wedi eu hatal yn rhannol) rhag bod yn gynghorwyr yn rhinwedd Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 o ganlyniad i ddyfarniad gan bwyllgor safonau lleol neu gan driwlynlys achosion neu driwlynlys achosion interim ynghylch a oedd y cynghorydd wedi cydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod lleol.
177. 177. Mae is-adran (2) yn rhoi pŵer hefyd i Weinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddiadau, yn dilyn ymgynghoriad â'r PAGA, i awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol iddo beidio â gwneud taliadau fel a benderfynir gan Weinidogion Cymru, i aelod o awdurdod am resymau a bennir yn y cyfarwyddyd. Caiff Gweinidogion Cymru wneud cais i'r Llys am orchymyn i orfodi'r cyfarwyddyd.
178. Mae is-adran (5) yn caniatáu i awdurdodau lleol adennill taliadau a wnaed drwy gamgymeriad i aelodau o'u hawdurdod a oedd wedi eu hatal neu wedi eu hatal yn rhannol yn rhinwedd rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, a oedd yn destun cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru neu a oedd wedi peidio bod yn aelod o'r awdurdod.

### **Adran 156 – Cyfarwyddiadau i gydymffurfio â gofynion**

179. Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod awdurdod wedi methu â chyflawni unrhyw ddyletswydd a osodwyd arno gan y PAGA at ddibenion y Mesur, cânt ddyroddi cyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gydymffurfio â'r gofyniad. Rhaid i unrhyw gyfarwyddyd o'r fath esbonio'r rhesymau dros ei ddyroddi a nodi'r camau y bydd angen eu cymryd gan yr awdurdod, gan gynnwys amserlen sy'n nodi erbyn pryd y dylai'r awdurdod ymateb.
180. Caiff Gweinidogion Cymru wneud cais i'r Llys am orchymyn i orfodi'r cyfarwyddyd.

### **Adran 157 – Canllawiau**

181. Mae'n rhoi pŵer i'r PAGA ddyroddi, amrywio a dirymu canllawiau ynghylch cydymffurfio â'i ofynion a nodir mewn adroddiadau blynyddol ac adroddiadau atodol.

### **Section 153 – Compliance with panel’s requirements**

174. Requires authorities to comply with decisions of the IRP set out in an annual report and empowers the IRP to monitor the implementation and management of the payments made by the authorities affected by its decisions. The IRP is empowered to require authorities to provide it with details of their payments and actual rates in payment. The authority must comply with such a request.

### **Section 154 – Members wishing to forgo payments**

175. Enables a member of an authority to waive his or her entitlement to such payments as that member determines. Since authorities will be required to make certain payments to members, it is considered necessary to make provision to permit authorities not to pay allowances in circumstances where a member has elected to forgo payment.

### **Section 155 – Withholding payments**

176. Requires an authority to withhold payments to persons who have been suspended from being a councillor (or partially suspended) by virtue of Part 3 of the Local Government Act 2000 as a result of an adjudication by a local standards committee or by a case tribunal or interim case tribunal on whether the councillor had complied with the local authority’s code of conduct.
177. Subsection (2) also empowers the Welsh Ministers to issue directions, following consultation with the IRP, to an authority requiring it to withhold payments as determined by the Welsh Ministers, to a member of an authority for reasons specified in the direction. The Welsh Ministers may apply to the Court for an order enforcing the direction.
178. Subsection (5) permits local authorities to recover payments made in error to members of their authority who had been suspended or partially suspended by virtue of part 3 of the Local Government Act 2000, were the subject of a direction from the Welsh Ministers or had ceased to be a member of the authority.

### **Section 156 – Directions to comply with requirements**

179. If the Welsh Ministers are satisfied that an authority has failed to discharge any duty imposed on it by the IRP for the purposes of the Measure, the Welsh Ministers may issue a direction requiring the authority to comply. Any such direction must explain the reason for its issue and set out the steps that need to be taken by the authority, including a timetable by which the authority should respond.
180. The Welsh Ministers may apply to the Court for an order enforcing the direction.

### **Section 157 - Guidance**

181. Empowers the IRP to issue, vary and revoke guidance on complying with its requirements set out in annual and supplementary reports.



**Adran 158 – Y Pŵer i wneud addasiadau i ddarpariaeth ynghylch y Panel**

182. Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru addasu, drwy orchymyn, y darpariaethau yn y Rhan hon o'r Mesur sy'n ymwneud â phenodi aelodau o'r PAGA neu ei swyddogaethau ac i wneud unrhyw addasiadau canlyniadol i ddeddfiadau eraill yn sgil hynny.

**Adran 159 – Dehongli Rhan 8**

183. Mae'n nodi'r dehongliad o dermau penodol a ddefnyddir yn y Rhan hon.

**Adran 160 – Diwygiadau canlyniadol**

184. Mae'n cyflwyno Atodlen 3 (Taliadau a phensiynau: mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol)

**Atodlen 3 – Taliadau a phensiynau: Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol**

185. Mae'n gwneud diwygiadau technegol eu natur i ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes er mwyn adlewyrchu'r ddarpariaeth a gyflwynir yn Rhan 8 o'r Mesur. Er enghraifft, mewn perthynas â Deddf Llywodraeth Leol 1972, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Deddf Addysg 2002 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2008, yn achos y cyfeiriadau hynny sy'n ymwneud â lwfansau sy'n daladwy o dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae angen rhoi yn eu lle gyfeiriadau at daliadau i aelodau o dan ddarpariaethau'r Mesur.

186. Er bod mwyafrif yr is-adrannau yn adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i'w diddymu, mae angen diwygiad i adran 18 (3A) i gadw pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n galluogi awdurdodau lleol, h.y., cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, i benderfynu symiau arian rhodd mewn perthynas ag aelodau.

**Rhan 9 – Cydlafurio a Chyfuno**

**Adran 161 – Canllawiau ynghylch cydlafurio rhwng awdurdodau gwella Cymreig**

187. Mae'n diwygio Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau statudol cynhwysfawr ar bob agwedd ar bwerau a dyletswyddau o dan y Mesur hwnnw.

**Adran 162 – Pŵer i wneud gorchymyn cyfuno**

188. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru drwy orchymyn i gyfuno dau neu dri awdurdod lleol (a dim mwy na hynny) i greu un ardal llywodraeth leol newydd.
189. Cyn gwneud gorchymyn cyfuno, rhaid i Weinidogion Cymru gael eu bodloni nad yw'n debyg y câi llywodraeth leol effeithiol ei sicrhau mewn o leiaf un o'r ardaloedd llywodraeth leol sydd i'w chyfuno.
190. Wrth ddod i'w casgliad bod cyfuno'n angenrheidiol, rhaid i Weinidogion Cymru bwysu a mesur a ellid sicrhau llywodraeth leol effeithiol yn yr awdurdodau lleol o dan sylw drwy arfer y pwerau sydd eisoes wedi eu rhoi i'r awdurdodau hynny ac i Weinidogion Cymru o dan ddarpariaethau penodedig ym Mesur 2009.

### **Section 158 – Power to modify provision about Panel**

182. Empowers the Welsh Ministers to modify, by order, the provisions in this Part of the Measure relating to the appointment of members of the IRP or its functions and to make any consequential modifications to other enactments as a result.

### **Section 159 – Interpretation of Part 8**

183. Sets out the interpretation of certain terms used in this Part.

### **Section 160 – Consequential amendments**

184. Introduces Schedule 3. (Payments and pensions: minor and consequential amendments.)

### **Schedule 3 – Payments and Pensions: Minor and consequential amendments**

185. Makes amendments of a technical nature to existing legislation to reflect the provision introduced in Part 8 of the Measure. For example, in relation to the Local Government Act 1972, School Standards and Framework Act 1998, Education Act 2002 and Education and Skills Act 2008, for those references that relate to allowances payable under the current legislation, there is a need to substitute references to payments to members under the provisions of the Measure.

186. Whilst the majority of subsections in section 18 of the Local Government and Housing Act 1989 are to be repealed, an amendment is required to section 18 (3A) to retain the power of the Welsh Ministers to make regulations enabling local authorities, i.e., county and county borough councils, to determine gratuities in relation to members.

## **Part 9 – Collaboration and Amalgamation**

### **Section 161 – Guidance about collaboration between Welsh improvement authorities**

187. Amends Part 1 of the Local Government (Wales) Measure 2009 to allow the Welsh Ministers to issue comprehensive statutory guidance on all aspects of local authorities' powers and duties under that Measure.

### **Section 162 – Power to make an amalgamation order**

188. Enables Welsh Ministers by order to amalgamate two or three (and no more) local authorities to create a single new local government area.
189. Before making an amalgamation order, the Welsh Ministers must be satisfied that effective local government is not likely to be achieved in at least one of the local government areas to be amalgamated.
190. In reaching their conclusion that amalgamation is necessary, the Welsh Ministers must consider whether effective local government could be achieved in the local authorities concerned by the exercise of the powers already conferred on those authorities and on the Welsh Ministers under specified provisions in the 2009 Measure.

191. Rhaid i Weinidogion Cymru gael eu bodloni felly bod arfer y pwerau canlynol yn annhebyg o sicrhau llywodraeth leol effeithiol:
- i. Adran 9 o Fesur 2009 (pwerau cydlafurio). Mae'r adran hon yn rhoi i awdurdodau gwella Cymreig (sy'n cynnwys awdurdodau lleol) bwerau i'w galluogi i gydlafurio â'i gilydd ac â chyrff eraill, er mwyn cyflawni'r dyletswyddau o dan adran 2(1) o Fesur 2009 (dyletswydd gyffredinol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau) neu hwyluso'r modd y maent yn cael eu cyflawni. Mae adran 3(2) o Fesur 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gwella Cymreig osod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, amcanion gwella iddo'i hun. Amcanion yw'r rhain ar gyfer gwella'r modd y mae swyddogaethau penodol yr awdurdod yn cael eu harfer ac mae adran 8(7) o Fesur 2009 yn pennu bod rhaid i awdurdod gwella Cymreig wneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau fel bod unrhyw safonau perfformiad yn cael eu bodloni.
  - ii. Adran 28 o Fesur 2009 (cymorth i awdurdodau gwella Cymreig). Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth y maent yn credu y byddai'n debygol o gynorthwyo awdurdod gwella Cymreig i gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o Fesur 2009 (Gwella Llywodraeth Leol). Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd i Weinidogion Cymru ystyried cynnig cymorth o'r fath os gofynnir iddynt wneud hynny; ac (oni ofynnir iddynt) ymgynghori â'r awdurdodau lleol perthnasol ac eraill cyn rhoi cymorth. Nid yw'n caniatáu i Weinidogion Cymru orfodi na chyfarwyddo awdurdod lleol neu unrhyw gorff arall i wneud unrhyw beth.
  - iii. Adran 29 o Fesur 2009 (pwerau cyfarwyddo). Mae'r adran hon yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd yn achos awdurdod lleol sy'n methu, neu sydd mewn perygl o fethu, â chydymffurfio â'i ddyletswyddau yn Rhan 1 o Fesur 2009 (yn y bôn, dyletswyddau i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant) a chyfarwyddo'r awdurdod hwnnw.
  - iv. Adran 30 o Fesur 2009 (pwerau cyfarwyddo: trefniadau cydlafurio). Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod gwella Cymreig nad yw efallai yn methu ei hun (nac mewn perygl o fethu) i gydlafurio ag un sy'n methu.
  - v. Adran 31 o Fesur 2009 (pŵer Gweinidogion Cymru i addasu deddfiadau a rhoi pwerau newydd). Mae'r adran hon yn darparu pŵer (drwy orchymyn) i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth i addasu neu eithrio cymhwysiad deddfiadau sy'n gymwys i awdurdodau gwella Cymreig, ac i roi pwerau newydd i'r awdurdodau hynny. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud hynny ond os ydynt wedi eu bodloni bod deddfiad o'r fath yn atal neu'n rhwystro awdurdod gwella Cymreig rhag cydymffurfio â darpariaethau Rhan 1 o Fesur 2009, neu y byddai rhoi pŵer newydd yn hwyluso'r cydymffurfio hwnnw.
192. Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru ddangos eu bod wedi eu bodloni bod arfer y pwerau uchod yn annhebyg o sicrhau llywodraeth leol effeithiol, ac y byddai cyfuno yn debyg o wneud hynny. Felly, ar ôl cael eu bodloni'n gyntaf nad yw llywodraeth

191. The Welsh Ministers must therefore be satisfied that exercise of the following powers is unlikely to achieve effective local government:
- i. Section 9 of the 2009 Measure (powers to collaborate). This section confers on Welsh improvement authorities (which includes local authorities) powers to enable them to collaborate with each other and with other bodies, for the purpose of discharging or facilitating the discharge of the duties under section 2(1) of the 2009 Measure (general duty to make arrangements to secure continuous improvement in the exercise of their functions). Section 3(2) of the 2009 Measure requires a Welsh improvement authority, for each financial year, to set itself improvement objectives. These are objectives for improving the exercise of particular functions of the authority and section 8(7) of the 2009 Measure specifies that a Welsh improvement authority must make arrangements to exercise its functions so that any performance standards are met.
  - ii. Section 28 of the 2009 Measure (support for Welsh Improvement Authorities). This section empowers the Welsh Ministers to do anything they consider likely to assist a Welsh improvement authority to comply with the requirements of Part 1 of the 2009 Measure (Local Government Improvement). It also requires the Welsh Ministers to consider offering such support if requested to do so; and (unless they are requested) to consult the relevant local authorities and others before providing support. It does not allow the Welsh Ministers to compel or direct a local authority or any other organisation to do anything.
  - iii. Section 29 of the 2009 Measure (powers of direction). This section contains powers for the Welsh Ministers to intervene in and direct a local authority which is failing, or is at risk of failing, to comply with its duties in Part 1 of the 2009 Measure (essentially, duties to make arrangements to secure improvement).
  - iv. Section 30 of the 2009 Measure (powers of direction: collaboration arrangements). This section permits the Welsh Ministers to direct a Welsh improvement authority which may not itself be failing (or be at risk of failing) to collaborate with one that is.
  - v. Section 31 of the 2009 Measure (power of Welsh Ministers to modify enactments and confer new powers). This section provides Welsh Ministers with a power (by order) to make provision to modify or exclude the application of enactments which apply to Welsh improvement authorities, and to confer new powers on such authorities. The Welsh Ministers may do so only if they are satisfied that such an enactment prevents or obstructs a Welsh improvement authority from complying with the provisions of Part 1 of the 2009 Measure, or that conferring a new power would facilitate such compliance.
192. The Welsh Ministers will have to demonstrate that they are satisfied that exercise of the above powers is unlikely to achieve effective local government, and that an amalgamation would be likely to do so. Therefore, having first been satisfied that effective local government is not likely to be achieved by the exercise of powers

leol effeithiol yn debyg o gael ei sicrhau drwy arfer pwerau o dan Ddeddf 2009, dim ond bryd hynny y caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt wedi eu bodloni ei fod yn angenrheidiol i sicrhau llywodraeth leol, wneud gorchymyn cyfuno.

193. Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru esbonio cynnig am gyfuno yn y ddogfennaeth sy'n ofynnol o dan adran 169 (gweler isod); bydd yn rhaid i'r esboniad ddangos sut y mae Gweinidogion Cymru wedi dod i'w casgliad.
194. Mae adran 162 yn ei gwneud ofynnol hefyd i orchymyn cyfuno ymdrin ag amryw o faterion sy'n sylfaenol i'r broses o gyfuno a chreu awdurdod newydd, gan gynnwys diddymu'r ardaloedd presennol, creu'r ardal newydd, ei enwi, ei ddynodi'n sir neu'n fwrdeistref sirol, sefydlu'r awdurdod lleol newydd yn gyngor sir neu'n gyngor bwrdeistref sirol a dirwyn i ben a diddymu cynghorau'r ardaloedd presennol.

### **Adran 163 – Materion etholiadol**

195. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru, pan fônt yn gwneud gorchymyn cyfuno, i wneud darpariaeth yn y gorchymyn hwnnw i ethol cyngor yr awdurdod lleol newydd. Byddai'r ddarpariaeth yn cynnwys pŵer i ganslo unrhyw etholiadau sydd wedi eu hamserlennu ar gyfer yr awdurdodau sydd i'w diddymu.
196. Os oedd yn rhaid i etholiad yr awdurdod newydd ddigwydd ar ddiwrnod ac eithrio'r un sydd wedi ei amserlennu ar gyfer etholiadau arferol llywodraeth leol a bod etholiadau cynghorau cymuned wedi eu hamserlennu hefyd ar gyfer y diwrnod hwnnw yn yr ardaloedd o dan sylw, byddai Gweinidogion Cymru yn gallu canslo'r etholiadau cynghorau cymuned a gorchymyn iddynt gael eu cynnal ar ddiwrnod arall (er enghraifft i gyd-fynd â'r etholiadau cyntaf i'r awdurdod newydd).
197. Mae'r diwygiad yn darparu ar gyfer cyfnod "cysgodol" a sefydlu awdurdod cysgodol a gweithrediaeth gysgodol i wneud y paratodau angenrheidiol ar gyfer yr awdurdod newydd cyn iddo ddod i fodolaeth yn ffurfiol.

### **Adran 164 – Gofyniad i gynnal refferendwm sy'n cynnwys maer etholedig**

198. Mae'n gofyn bod Weinidogion Cymru, pan fônt yn gwneud gorchymyn cyfuno, yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cysgodol ar gyfer yr ardal llywodraeth leol newydd gynnal refferendwm ynghylch a ddylai'r awdurdod newydd (pan ddaw i fodolaeth yn ffurfiol) weithredu ffurf maer etholedig a chabinet ar drefniadau gweithrediaeth. Dim ond pan fo un o leiaf o'r awdurdodau sydd i'w cyfuno eisoes yn gweithredu drwy weithrediaeth maer etholedig a chabinet y bydd y gofyniad i gynnal refferendwm o'r fath yn gymwys.

### **Adran 165 – Pŵer i gyfarwyddo refferendwm sy'n cynnwys maer etholedig**

199. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fyddai'n caniatáu iddynt gyfarwyddo awdurdod cysgodol ardal llywodraeth leol newydd i gynnal refferendwm ynghylch a ddylai'r awdurdod lleol newydd weithredu'r ffurf maer etholedig a chabinet ar drefniadau gweithrediaeth.
200. Yr amgylchiadau lle y gellid galw'r pŵer hwn i rym yw rhai lle y byddai preswylwyr un o'r awdurdodau lleol a oedd i'w cyfuno wedi pleidleisio mewn refferendwm o blaid cael maer etholedig, ond bod etholiad y maer heb gael ei gynnal eto. Bydd y



under the 2009 Measure, it is only then that the Welsh Ministers may, if they are satisfied that it is necessary to achieve local government, make an amalgamation order.

193. The Welsh Ministers will have to explain a proposal for amalgamation in the documentation required under section 169 (see below); the explanation will have to demonstrate how the Welsh Ministers reached their conclusion.
194. Section 162 also requires an amalgamation order to cover various issues fundamental to an amalgamation and the creation of a new authority, including abolition of the existing areas, the creation of the new area, its name, its designation as a county or county borough, the establishment of the new local authority as a county, or county borough, council and the winding up and dissolution of the councils of the existing areas.

### **Section 163 – Electoral matters**

195. Enables the Welsh Ministers, when making an amalgamation order, to make provision in that order for the election of the council of the new local authority. The provision would include the power to cancel any elections scheduled for the authorities to be abolished.
196. If the election of the new authority had to take place on a day other than that scheduled for the ordinary local government elections and community council elections were also scheduled for that day in the areas concerned, the Welsh Ministers would be able to cancel the community council elections and order them to be held on another day (for example to coincide with the first elections to the new authority).
197. The amendment provides for a “shadow” period and the establishment of a shadow authority and shadow executive to make the necessary preparations for the new authority before it comes formally into being.

### **Section 164 – Requirement to hold a referendum involving an elected mayor**

198. Requires the Welsh Ministers, when making an amalgamation order, to require the shadow authority for the new local government area to hold a referendum on whether the new authority (when it comes into being formally) should operate the elected mayor and cabinet form of executive arrangements. The requirement to hold such a referendum will apply only where at least one of the authorities to be amalgamated is already operating with an elected mayor and cabinet executive.

### **Section 165 – Power to direct a referendum involving an elected mayor**

199. Enables the Welsh Ministers to make regulations by which they may direct the shadow authority of a new local government area to hold a referendum on whether or not the new local authority should operate the elected mayor and cabinet form of executive arrangements.
200. The circumstances where this power might be invoked would be where the residents of one of the local authorities to be amalgamated had voted in a referendum in favour of having an elected mayor, but the election of the mayor had not yet been

pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i estyn y weithdrefn ar gyfer cyflwyno maer etholedig dros y cyfan o ardal llywodraeth leol newydd.

### **Adran 166 – Darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol a darpariaeth arbed**

201. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol a darpariaeth arbed mewn cysylltiad â gorchymyn cyfuno.
202. Bydd yr adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn gorchymyn cyfuno i fynd i'r afael â materion allweddol eraill megis trosglwyddiadau staff, eiddo, rhwymedigaethau a hawliau ac unrhyw fater arall sy'n deillio o'r cyfuno. Gall fod yn anymarferol ceisio dal yr holl fanylion hyn yn y gorchymyn cyfuno, ac felly mae'r adran hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ymdrin â darpariaeth o'r fath.

### **Adran 167 – Adolygu trefniadau etholiadol**

203. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo Comisiwn Cymru i ymgymryd ag adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer ardal llywodraeth leol newydd.
204. Mae'r darpariaethau sy'n cael eu cyflwyno gan adran 163 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r trefniadau etholiadol cychwynnol ar gyfer awdurdod newydd yn y gorchymyn cyfuno.
205. Ran amlaf byddai'r gorchymyn cyfuno'n cael ei wneud mewn digon o amser cyn y dyddiad a amserlenwyd ar gyfer yr etholiadau cyntaf i'r trefniadau etholiadol fod wedi eu hadolygu gan Gomisiwn Cymru. Gall adolygiad gymryd rhwng 12 a 18 mis, ac felly os bydd gorchymyn cyfuno'n cael ei wneud yn agos at y dyddiad a amserlenwyd ar gyfer etholiadau, efallai na fydd amser i'r Comisiwn gwblhau ei adolygiad cyn yr etholiadau cyntaf.
206. Yn yr amgylchiadau hyn, mae adran 163 yn galluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu'r trefniadau etholiadol sydd i'w defnyddio ar gyfer yr etholiadau cyntaf. Byddai'r Gweinidogion yn ceisio dod o hyd i farn ddeallus wrth wneud hynny; byddai'r trefniadau yn destun adolygiad wedyn gan Gomisiwn Cymru cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr etholiadau cyntaf. Dyma beth a ddigwyddodd yn achos yr etholiadau cyntaf i'r awdurdodau newydd a grëwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.

### **Adran 168 – Diwygiad i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972**

207. Mae'n diwygio darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972") sy'n llywodraethu'r weithdrefn sydd i'w dilyn gan Gomisiwn Cymru wrth iddo ymgymryd ag adolygiad o'r trefniadau etholiadol. Bydd hynny'n sicrhau bod y gweithdrefnau arferol yn cael eu dilyn os bydd y Comisiwn yn ymgymryd ag adolygiad o ardal llywodraeth leol newydd o dan gyfarwyddyd gan Gweinidogion Cymru yn sgil gorchymyn cyfuno.

held. The power will enable the Welsh Ministers to extend the procedure for introducing an elected mayor over the whole of the new local government area.

### **Section 166 – Supplementary, incidental, consequential, transitional and saving provision**

201. Enables the Welsh Ministers to make supplementary, incidental, consequential, transitional and saving provision in connection with an amalgamation order.
202. This section will enable the Welsh Ministers to make provision in an amalgamation order to address other key issues such as the transfers of staff, properties, liabilities and rights and any other matter arising out of the amalgamation. It may be impractical to try and capture all of these details in the amalgamation order, so the section also enables the Welsh Ministers to make regulations to cover such provision.

### **Section 167 – Review of electoral arrangements**

203. Enables the Welsh Ministers to direct the Welsh Commission to undertake a review of the electoral arrangements for the new local government area.
204. The provisions introduced by section 163 enable the Welsh Ministers to specify the initial electoral arrangements for a new authority in the amalgamation order.
205. In most cases the amalgamation order would be made sufficiently in advance of the scheduled date of the first elections for the electoral arrangements to have been reviewed by the Welsh Commission. A review can take between 12 and 18 months, so if an amalgamation order is close to the scheduled date of elections there may not be time for the Commission to complete the review before the first elections.
206. In these circumstances, section 163 enables the Welsh Ministers to determine the electoral arrangements to be used for the first elections. Ministers would seek out informed opinion in doing so; the arrangements would then be subject to review by the Welsh Commission as soon as possible after the first elections. This is what happened for the first elections to the new authorities created by the Local Government (Wales) Act 1994.

### **Section 168 – Amendment to the Local Government Act 1972**

207. Amends provisions in the Local Government Act 1972 (the “1972 Act”) which govern the procedure to be followed by the Welsh Commission when undertaking a review of electoral arrangements. This will ensure that the usual procedures are followed in the event of the Commission undertaking a review of a new local government area under direction from the Welsh Ministers following an amalgamation order.

208. Mae is-adran (5) hefyd yn diwygio adran 68(1) o Ddeddf 1972 fel bod darpariaethau adran 68 (sy'n ymwneud â chytundebau trosiannol mewn cysylltiad ag eiddo a chyllid mewn perthynas â'r cyrff cyhoeddus hynny y mae newid, diddymu neu gyfansoddi unrhyw ardal drwy orchymyn o dan Ran IV o Ddeddf 1972 yn effeithio arnynt) hefyd yn gymwys os bydd gorchymyn cyfuno.

### **Adran 169 – Y weithdrefn sy'n gymwys i orchymyn cyfuno**

209. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i orchymyn cyfuno fod yn ddarostyngedig i weithdrefn benderfynu uwchgadarnhaol y Cynulliad. Mae'r adran yn nodi pob cam yn y weithdrefn.
210. Pan fo Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi eu bod yn cynnig cyfuno dau neu dri awdurdod lleol, rhaid iddynt ymgynghori ynglŷn â'u cynigion. Rhaid i'r ymgynghoreion gynnwys: y cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardaloedd sydd i'w cyfuno; y cynghorau cymuned a'r cynghorau tref yn yr ardaloedd o dan sylw; ac unrhyw bersonau eraill y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt.
211. Ar ôl yr ymgynghoriad, os bydd Gweinidogion Cymru yn dymuno bwrw ymlaen â'r cynigion, rhaid iddynt osod gerbron y Cynulliad ddogfen sy'n rhoi esboniad am y cynigion, yn rhoi manylion yr ymgynghoriad ac yn cyflwyno gorchymyn drafft sy'n rhoi effaith i'r cynigion.
212. Rhaid i'r ddogfen fod wedi ei gosod gerbron y Cynulliad am ddim llai na 60 o ddiwrnodau – ac yn ystod yr amser hwnnw caiff unrhyw un sydd â buddiant yn y cynigion gyflwyno sylwadau a chaiff pwyllgorau Cynulliad achub ar y cyfle i alw'r cynigion i mewn i gael eu hystyried.
213. Caniateir i'r gorchymyn drafft terfynol gael ei osod wedyn gerbron y Cynulliad, ynghyd â datganiad sy'n nodi pa sylwadau sydd wedi dod i law ers i'r gorchymyn drafft cyntaf gael ei osod a pha newidiadau, os o gwbl, sydd wedi eu gwneud yn y gorchymyn drafft terfynol.
214. Rhaid i'r gorchymyn drafft terfynol gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad, drwy fwyafrif syml o'r ACau hynny sy'n pleidleisio.

### **Adran 170 – Cywiro gorchymynion**

215. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gywiro, drwy orchymyn, wall sydd wedi ei wneud mewn gorchymyn cyfuno.

### **Adran 171 – Dehongli**

216. Mae'n darparu diffiniadau o'r derminoleg benodol sy'n cael ei defnyddio yn yr adrannau newydd.

### **Rhan 10 – Cyffredinol**

#### **Adran 172 – Gorchymynion a rheoliadau**

217. Mae'r adran hon yn darparu bod gorchymynion a rheoliadau o dan y Mesur hwn yn cael eu gwneud drwy offeryn statudol ac yn nodi gweithdrefnau'r Cynulliad mewn cysylltiad â'r offerynnau hyn.

208. Subsection (5) also amends section 68(1) of the 1972 Act so the provisions of section 68 (which concerns transitional agreements with respect to property and finance in respect of those public bodies affected by the alteration, abolition or constitution of any area by an order under Part IV of the 1972 Act) also apply in the event of an amalgamation order.

### **Section 169 – Procedure applicable to an amalgamation order**

209. Requires that an amalgamation order will be subject to the Assembly's super-affirmative resolution procedure. The section sets out each step in the procedure.
210. Once the Welsh Ministers have announced that they propose to amalgamate two or three local authorities, they must consult on their proposals. The consultees must include: the county and county borough councils for the areas to be amalgamated; the community and town councils in the areas concerned; and such other persons as are likely to be affected by the proposals.
211. Following the consultation, if the Welsh Ministers wish to proceed with the proposals, they must lay before the Assembly a document which provides an explanation for the proposals, gives details of the consultation and presents a draft order giving effect to the proposals.
212. The document has to lay before the Assembly for no less than 60 days – during which time anyone with an interest in the proposals may make representations and Assembly committees may take up the opportunity to call in the proposals for consideration.
213. The final draft order may then be laid before the Assembly, accompanied by a statement which sets out what representations have been received since the first draft order was laid and what changes, if any, have been made in the final draft order.
214. The final draft order must be approved by the Assembly, by simple majority of those AMs voting.

### **Section 170 – Correction of orders**

215. Enables the Welsh Ministers, by order, to correct an error made in an amalgamation order.

### **Section 171 – Interpretation**

216. Provides definitions of certain terminology used in the new sections.

## **Part 10 - General**

### **Section 172 – Orders and regulations**

217. This section provides for orders and regulations under the Measure to be made by statutory instrument and sets out the Assembly procedures in respect of these instruments.



**Adran 173 – Y weithdrefn sy'n gymwys i orchmynion penodol o dan adran 127**

218. Mae'n nodi'r weithdrefn y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn os byddant yn gwneud gorchymyn o dan adran 127 i wneud addasiadau i unrhyw ddeddfiad y maent yn meddwl ei fod yn atal neu'n rhwystro cynghorau cymuned rhag arfer eu pŵer (ynghylch llesiant) o dan adran 2(1) o Ddeddf 2000.

**Adran 174 – Canllawiau a chyfarwyddiadau**

219. Mae'n egluro pwerau Gweinidogion Cymru i roi canllawiau a rhoi cyfarwyddiadau o dan y Mesur hwn.

**Adran 175 – Dehongli**

220. Mae'n darparu dehongliad o dermau penodol a gaiff eu defnyddio yn y Mesur hwn.

**Adran 176 – Diwygiadau canlyniadol a diddymiadau**

221. Mae'r adran hon yn mewnosod is-adrannau (5) i (7) newydd yn adran 106 o Ddeddf 2000 i wneud darpariaeth ar gyfer gorchmynion a rheoliadau o dan yr adrannau newydd o'r Ddeddf honno a fewnosdir gan y Mesur i gael eu gwneud gan offeryn statudol ac mae'n nodi gweithdrefnau'r Cynulliad mewn cysylltiad â'r offerynnau hyn.

222. Mae hefyd yn cyflwyno Atodlen 4 (diddymiadau a dirymiadau) ac yn gwneud darpariaeth i'r PAGA ragnodi cynllun i awdurdod lleol gan ddefnyddio'r rheoliadau presennol am gyfnod trosiannol ar gyfer y flwyddyn ariannol o 1 Ebrill 2011 hyd at 31 Mawrth 2012. Mae'r PAGA i gyhoeddi ei adroddiad blynyddol cyntaf o dan y Mesur erbyn 31 Rhagfyr 2011 ac mae'r adroddiad i ymdrin â'r flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2012 hyd at 31 Mawrth 2013.

**Atodlen 4 – Diddymiadau a dirymiadau**

223. Mae'n diddymu ac yn dirymu'r ddarpariaeth bresennol i wneud lle i'r ddarpariaeth newydd a wneir yn y Mesur.

**Adran 177 – Y pŵer i wneud darpariaeth atodol**

224. Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth atodol, ganlyniadol, gysylltiedig, drosiannol, ddarfodol ac arbed i'r rhannau o'r Mesur i gymryd datblygiadau yn y dyfodol mewn llywodraeth leol i ystyriaeth ac unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol y gallai fod awdurdodau lleol yn eu hysgwyddo.

**Adran 178 – Cychwyn**

225. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch cychwyn y darpariaethau yn y Mesur.

**Adran 179 – Enw byr**

**Section 173 - Procedure applicable to certain orders under section 127**

218. Sets out the procedure the Welsh Ministers must follow if they make an order under section 127 to make modifications to any enactment which they think prevents or obstructs community councils from exercising their power (of well-being) under section 2(1) of the 2000 Act.

**Section 174 - Guidance and directions**

219. Clarifies the powers of the Welsh Ministers to give guidance and to give directions under this Measure.

**Section 175 - Interpretation**

220. Provides interpretation of certain terms used in this Measure.

**Section 176 - Consequential amendments and repeals**

221. This section inserts new subsections (5) to (7) to section 106 of the 2000 Act to make provision for orders and regulations under the new sections of that Act inserted by the Measure to be made by statutory instrument and sets out the Assembly procedures in respect of these instruments.

222. Also introduces Schedule 4 (repeals and revocations) and makes provision for the IRP to prescribe a scheme for a local authority using the current regulations for a transitional period for the financial year from 1 April 2011 until 31 March 2012. The IRP is to publish its first annual report under the Measure by 31 December 2011 and the report is to relate to the financial year 1 April 2012 to 31 March 2013.

**Schedule 4 - Repeals and revocations**

223. Repeals and revokes existing provision to accommodate the new provision made in the Measure.

**Section 177 - Power to make supplementary provision**

224. Empowers the Welsh Ministers to make supplementary, consequential, incidental, transitional, transitory and saving provision to the parts of the Measure to take account of future developments in local government and any future legislation which may have to be accommodated by local authorities.

**Section 178 - Commencement**

225. This section makes provision about the commencement of the provisions in the Measure.

**Section 179 - Short Title**

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (mccc 4)  
a gymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 10 Mai 2011*

## **COFNOD O'R TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

226. Mae'r tabl canlynol yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o daith y Mesur drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael Cofnod o'r Trafodion a gwybodaeth bellach ar daith y Mesur hwn ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-localgov.htm>

<b>Cyfnod</b>	<b>Dyddiad</b>
Cyflwyno	12 Gorffennaf 2010
Cyfnod 1 - Dadl	11 Ionawr 2011
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu yn ystyried y gwelliannau	2, 9 Chwefror 2011
Cyfnod 3 Y Cyfarfod Llawn yn ystyried gwelliannau	15 Mawrth 2011
Cyfnod 4 Cymeradwyaeth gan y Cynulliad	15 Mawrth 2011
Cymeradwyaeth Frenhinol yn y Cyfrin Gyngor	10 Mai 2011

© Hawlfraint y Goron 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**RECORD OF PROCEEDINGS IN NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

226. The following table sets out the dates for each stage of the Measure's passage through the National Assembly for Wales. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Measure can be found on the National Assembly for Wales' website at:

<http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-localgov.htm>.

<b>Stage</b>	<b>Date</b>
Introduced	12 July 2010
Stage 1 - Debate	11 January 2011
Stage 2 Scrutiny Committee - consideration of amendments	2, 9 February 2011
Stage 3 Plenary - consideration of amendments	15 March 2011
Stage 4 Approved by the Assembly	15 March 2011
Royal Approval in Privy Council	10 May 2011

---

© Crown copyright 2011

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.